



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Cofnod y Trafodion**

**The National Assembly for Wales
The Record of Proceedings**

**Dydd Mawrth, 31 Ionawr 2006
Tuesday, 31 January 2006**

Cynnwys Contents

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister	4
Cwestiwn Brys: Colli Swyddi yn Sefydliad Ymchwil Tir Glas a'r Amgylchedd Urgent Question: Job Losses at the Institute of Grassland and Environmental Research	27
Datganiad Busnes Business Statement.....	31
Cymeradwyo o dan Reolau Sefydlog Rhifau 25.2 a 24.25 Approval under Standing Orders Nos. 25.2 and 24.25.....	34
Cymeradwyo Rheoliadau Addysg (Penderfynu Trefniadau Derbyn) (Cymru) 2006, Rheoliadau Ysgolion Newydd (Derbyniadau) (Cymru) 2006, Rheoliadau Addysg (Gwrthwynebiadau i Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2006, a Rheoliadau Addysg (Amrywio Trefniadau Derbyn) (Cymru) 2006 Approval of the Education (Determination of Admission Arrangements) (Wales) Regulations 2006, the New School (Admission) (Wales) Regulations 2006, the Education (Objections to Admission Arrangements) (Wales) Regulations 2006, and the Education (Variation of Admission Arrangements) (Wales) Regulations 2006	36
Cymeradwyo Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 8) (Cymru) 2006, a Rheoliadau Deddf Addysg 2002 (Darpariaethau Trosiannol a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2006 Approval of the Education Act 2002 (Commencement No. 8) (Wales) Order 2006, and the Education Act 2002 (Transitional Provisions and Consequential Amendments) (Wales) Regulations 2006	51
Cymeradwyo Gorchymyn Cymeradwyo Codau Ymarfer ar gyfer Rheoli (Eiddo Preswyl) (Cymru) 2005 Approval of the Approval of Codes of Management Practice (Residential Property) (Wales) Order 2005.....	58
Cymeradwyo Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Cymru) 2006 o dan Reol Sefydlog Rhif 24.27, a Rheoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Rheoli Brechiadau) (Cymru) 2006 o dan Reol Sefydlog Rhif 24.27 Approval of the Foot and Mouth Disease (Wales) Order 2006 under Standing Order 24.27, and the Foot and Mouth (Control of Vaccination) (Wales) Regulations 2006 under Standing Order No. 24.27	61
Cymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestr Atodol Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) a (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio a Diwygiad Canlyniadol) (Cymru) 2006 Approval of the NHS (General Ophthalmic Services Supplementary List) and (General Ophthalmic Services) (Amendment and Consequential Amendment) (Wales) Regulations 2006	74
Cymeradwyo Dyfarniad Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai (Cymru) 2006-2007, a'r Dyfarniad Cyffredinol (Cymru) o Gredyd Eitem 8 a Debyd Eitem 8: 2006-2007 o dan Reol Sefydlog Rhif 29 Approval of the Housing Revenue Account Subsidy (Wales) Determination 2006-2007, and	

the (Wales) General Determination of the Item 8 Credit and Item 8 Debit 2006-07 under
Standing Order No. 29..... 78

Y Chweched Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb
The Sixth Equality Annual Report 85

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were
spoken in the Chamber.

In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Maes Gweithgarwch y Banc Gwybodaeth The Knowledge Bank's Areas of Activity

Q1 Kirsty Williams: Will the First Minister make a statement on the knowledge bank's areas of activity? OAQ1180 (FM)

The First Minister (Rhodri Morgan): It is still early days, but the knowledge bank's team of officials has initiated discussions with around 50 companies and is actively engaged with around half of this client group at present, and is looking to accelerate their growth opportunities.

Kirsty Williams: Cardiff University's *The Welsh Economic Review* of autumn last year identified two crucial potential failings within the knowledge bank—the lack of objective economic analysis to guide the selection of the companies involved, and

'the apparent lack of any sort of measurable targets for success'.

Will you discuss this with your Minister for Economic Development and Transport to ensure that these weaknesses are overcome?

The First Minister: You claim that these were identified as weaknesses; that is an allegation, not a fact. The companies were proposed on the basis of activities by professional service companies, such as accountancy firms and so forth, and by our own Trade and Invest Wales team and by the Welsh Development Agency. Therefore, it was done objectively. We will have to see at the end of the pathfinder year whether we think the list needs to be expanded. I think that your issue was with the selection criteria, and we believe that they were objective.

Alun Ffred Jones: Pa griteria fyddwch chi yn eu mabwysiadu, neu yr ydych wedi eu

Q1 Kirsty Williams: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am faes gweithgarwch y banc gwybodaeth? OAQ1180 (FM)

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Mae'n gynnar o hyd, ond mae tîm swyddogion y banc gwybodaeth wedi dechrau trafodaethau gyda rhyw 50 o gwmnïau ac wrthi'n trafod gyda thua hanner y grŵp cleientiaid hwn ar hyn o bryd, ac yn ceisio cynyddu eu cyfleoedd o ran twf.

Kirsty Williams: Yn ôl *Welsh Economic Review* Prifysgol Caerdydd yr hydref diwethaf, mae dau bwynt a allai fod yn wendidau allweddol o fewn y banc gwybodaeth—sef diffyg dadansoddiad economaidd gwrthrychol i roi arweiniad wrth ddewis y cwmnïau i'w cynnwys, ac

yn ôl pob golwg, diffyg unrhyw fath o dargedau mesuradwy ar gyfer llwyddiant.

A wnewch drafod hyn gyda'ch Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth i sicrhau y goresgynnir y gwendidau hyn?

Y Prif Weinidog: Honnwyd fod y rhain wedi eu nodi fel gwendidau; haerid yw hynny, nid ffaith. Cynigiwyd y cwmnïau ar sail gweithgareddau gan gwmnïau gwasanaeth proffesiynol, megis cwmnïau cyfrifyddiaeth ac yn y blaen, a chan ein tîm Masnach a Buddsoddi Cymru ni a chan Awdurdod Datblygu Cymru. Felly, gwnaethpwyd hynny'n wrthrychol. Bydd rhaid gweld ar ddiwedd y flwyddyn fraenaru a ydym yn meddwl bod angen ehangu'r rhestr. Credaf mai â'r meini prawf yr oeddech yn anghydweld, a chredwn ni eu bod yn wrthrychol.

Alun Ffred Jones: What criteria will you adopt, or have you adopted, to measure the

mabwysiadu, i fesur llwyddiant unrhyw fuddsoddiad yn y cwmnïau hyn yn y dyfodol?

Y Prif Weinidog: Y peth allweddol fydd dyfeisio pecyn cymorth i helpu'r cwmnïau ar y rhestr i dyfu'n gyflymach. A oes gwendidau yn y ffordd yr ydym yn darparu cymorth yn awr, am nad yw'r ffordd honno wedi'i theilwra i ateb gofynion cwmnïau, yn enwedig gofynion y rhai sydd am dyfu'n gyflym iawn?

Alun Cairns: The initial communication that the Welsh Assembly Government made with the knowledge bank companies was last June, or thereabouts, depending on the company. The list was made public in November, but nothing else has happened since June. Many of these companies are becoming frustrated. The Minister has staked a lot of his credibility on this policy, but as far as the companies can see, there is nothing but inaction. What do you say to their accusations?

The First Minister: I do not take accusations repeated by you, Alun. You obviously did not listen to what I said in answer to Kirsty Williams. Discussions have been initiated with around 50 companies and the bank is actively engaged with around half of the client group at present. We will have to see what comes out of those discussions in detail with 25-odd of the 50 companies on the list. Let us hope that the bank can identify during the pathfinder year what more needs to be done and how you can package a tailor-made set of business support solutions that can enable these companies with the potential for rapid growth to grow rapidly.

Toriadau Arfaethedig i Wasanaethau'r GIG yn y Canolbarth a'r Gorllewin Proposed Cuts to NHS Services in Mid and West Wales

Q2 Lisa Francis: Will the First Minister make a statement on proposed cuts to NHS services in Mid and West Wales? OAQ1184 (FM)

The First Minister: The facts, rather than the allegations, about healthcare in the Mid and West Wales region show an increase of

success of any investment in these companies in future?

The First Minister: The key point will be the devising of a support package to help the companies on the list to grow faster. Are there deficiencies in the way in which we provide support now, because it is not tailored to companies' needs, especially the needs of those which want to grow very quickly?

Alun Cairns: Ym mis Mehefin y llynedd, neu tua'r adeg honno, gan ddbynnu ar y cwmni, y cysylltodd Llywodraeth Cynulliad Cymru â chwmnïau'r banc gwybodaeth gyntaf. Cyhoeddwyd y rhestr ym mis Tachwedd, ond nid oes dim byd arall wedi digwydd ers Mehefin. Mae llawer o'r cwmnïau hyn yn dechrau teimlo'n rhwystredig. Mae'r Gweinidog wedi mentro llawer o'i hygredd ar y polisi hwn, ond hyd y gall y cwmnïau weld, nid oes dim ond diffyg gweithredu. Beth yw eich ymateb i'w cyhuddiadau?

Y Prif Weinidog: Nid wyf yn derbyn cyhuddiadau a ailadroddir gennych chi, Alun. Yn amlwg, ni wrandawsoch ar yr hyn a ddywedais wrth ateb Kirsty Williams. Mae trafodaethau wedi'u dechrau gyda rhyw 50 o gwmnïau ac mae'r banc wrthi'n trafod ar hyn o bryd gyda thua hanner y grŵp cleientiaid. Bydd yn rhaid inni weld beth a fydd yn deillio o'r trafodaethau manwl hynny gyda rhyw 25 o'r 50 cwmni ar y rhestr. Gadewch inni obeithio y gall y banc weld yn ystod y flwyddyn fraenaru beth yn rhagor sydd angen ei wneud a sut y gallwch baratoi set bwrpasol o atebion cymorth busnes a all alluogi'r cwmnïau hyn sydd â'r potensial i dyfu'n gyflym i wneud hynny.

Q2 Lisa Francis: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynghylch y toriadau arfaethedig i wasanaethau'r GIG yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ1184 (FM)

Y Prif Weinidog: Mae'r ffeithiau, yn hytrach na'r honiadau, am ofal iechyd yn rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru'n

more than 25 per cent in funding over the past two years, and an increase in staffing since the Assembly came into being of 15 per cent in non-medical staff and 27 per cent in medical and dental staff.

Lisa Francis: ‘The Case for Change’ for Mid and West Wales is an issues paper, and, by the end of March, the project team associated with it will generate proposals that will be put into a consultation document. That may lead to cuts being proposed in services. What were the public engagement events that led to this feedback, and how many such events will have been held between October of last year and March this year?

The First Minister: We all accept the need for change. We have debated Wanless here, and Wanless said that there had to be change in the way in which healthcare is delivered. The problem is that every time you try to turn that generalised case for change, which we all support, into an individual case for actual changes, those changes, where they are negative rather than positive, cause public anger and frustration. The public likes the positive but not the negative, though it still accepts the case for change—we all accept the case for change. We now have to see what emerges from the application of that general principle, which we support, to the Mid and West Wales region.

Elin Jones: Mae Patricia Hewitt heddiw wedi cyhoeddi moratoriwm ar gau ysbytai cymunedol yn Lloegr. A oes unrhyw fwriad gan eich Llywodraeth i roi cyfarwyddyd tebyg i fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd yng Nghymru?

Y Prif Weinidog: Yr oeddem yn dilyn polisi o fuddsoddi yn ein hysbytai cymunedol ymhell cyn i Loegr wneud. Credaf ichi holi ynghylch hyn yr wythnos diwethaf, ac atebais y cwestiwn. Dywedais wrthyhych chi a’r Cynulliad bryd hynny ein bod yn sôn am fuddsoddi mwy nag £20 miliwn yn ysbytai cymunedol Aberteifi, Aberaeron a Thregaron. Dyna swm sylweddol sy’n dangos ein parodrwydd i fuddsoddi cyfalaf yn ein

dangos cynnydd o fwy na 25 y cant yn yr cyllid dros y ddwy flynedd ddiwethaf, a chynnydd mewn staffio ers i’r Cynulliad ddod i fodolaeth o 15 y cant mewn staff afeddygol a 27 y cant mewn staff meddygol a deintyddol.

Lisa Francis: Papur materion yw ‘The Case for Change’ i Ganolbarth a Gorllewin Cymru, ac erbyn diwedd mis Mawrth, bydd y tîm prosiect sy’n ymwneud ag ef yn cynhyrchu cynigion a roddir mewn dogfen ymgynghori. Gall hynny arwain at gynnig cwtogi gwasanaethau. Beth oedd y digwyddiadau’n ymwneud ag ymgysylltu â’r cyhoedd a arweiniodd at yr adborth hwn, a sawl digwyddiad o’r fath a fydd wedi’i gynnal rhwng mis Hydref y llynedd a Mawrth eleni?

Y Prif Weinidog: Yr ydym i gyd yn derbyn yr angen am newid. Yr ydym wedi trafod Wanless yma, a dywedodd Wanless fod rhaid cael newid yn y modd y darperir gofal iechyd. Y broblem yw bob tro y ceisiwch droi’r achos cyffredinol hwnnw dros newid, a gefnogir gan bawb ohonom, yn achos unigol dros newidiadau gwirioneddol, mae’r newidiadau hynny, lle y bônt yn negyddol yn hytrach nag yn gadarnhaol, yn achosi dicter a rhwystredigaeth ymysg y cyhoedd. Mae’r cyhoedd yn hoffi’r cadarnhaol ond nid y negyddol, er eu bod yn dal i dderbyn yr achos dros newid—yr ydym i gyd yn derbyn yr achos dros newid. Rhaid inni weld yn awr beth a ddaw o weithredu’r egwyddor gyffredinol honno, a gefnogir gennym, yn rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Elin Jones: Patricia Hewitt has today declared a moratorium on the closure of community hospitals in England. Does your Government have any intention of issuing a similar direction to local health boards and trusts in Wales?

The First Minister: We have followed a policy of investing in our community hospitals long before England. I think that you asked a similar question last week, to which I responded. I told you and the Assembly at that time that we were talking about investing more than £20 million in community hospitals at Cardigan, Aberaeron and Tregaron. That is a substantial sum, which shows our willingness to make capital

hysbytai cymunedol, er na fydd hynny'n dilyn y patrwm presennol, wrth gwrs. Ni allwch fuddsoddi a gosod y patrwm presennol mewn asbig. Rhaid cael newidiadau er mwyn cyfiawnhau'r lefel honno o fuddsoddi cyfalaf.

investment in our community hospitals, albeit not following the same pattern as currently, of course. You cannot have investment and set the current trend in aspic. You have to have change in order to justify that level of capital investment.

Polisïau i Ddatblygu Chwaraeon yng Nghymru Policies to Develop Sport in Wales

Q3 Alun Cairns: Will the First Minister make a statement on his policies to develop sport in Wales? OAQ1172 (FM)

Q3 Alun Cairns: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei bolisïau i ddatblygu chwaraeon yng Nghymru? OAQ1172 (FM)

The First Minister: Our policy is to ensure that, within the next 20 years, sport and physical activity are at the heart of Welsh life so that we are a fitter and healthier Wales. It is also to beat England on Saturday. [*Laughter.*]

Y Prif Weinidog: Ein polisi yw sicrhau, o fewn yr 20 mlynedd nesaf, y bydd chwaraeon a gweithgaredd corfforol yn rhan ganolog o fywyd Cymru fel y byddwn yn Gymru iachach a mwy heini. Ein polisi hefyd yw curo Lloegr ddydd Sadwrn. [*Chwerthin.*]

Alun Cairns: I rarely agree with the First Minister, but that is something on which we are united, and will remain united until Saturday.

Alun Cairns: Anaml y cytunaf â'r Prif Weinidog, ond mae hynny'n rhywbeth yr ydym yn gytûn arno, a byddwn yn parhau'n gytûn tan ddydd Sadwrn.

The development of sport is important, and yesterday's news that Cardiff is more likely to attract the FA Cup final for yet another year is good for the Welsh economy. Looking beyond the football festivals that we have attracted to Cardiff through the Millennium Stadium, what about the opportunity of attracting test-match cricket to Cardiff? It would take only £3 million-worth of funding, which would come from a range of sources, not just the Assembly or the local authority. Do you give your full commitment to exploring every opportunity to bring test-match cricket to Cardiff? If you and Glamorgan County Cricket Club act quickly, there is every prospect of bringing the Ashes to Cardiff by 2009. Are you determined to succeed in that?

Mae datblygu chwaraeon yn bwysig, ac mae'r newyddion ddoe fod Caerdydd yn fwy tebygol o ddenu rownd derfynol Cwpan Lloegr am flwyddyn arall yn newydd da i economi Cymru. O edrych y tu hwnt i'r gwyliau pêl-droed yr ydym wedi'u denu i Gaerdydd drwy Stadiwm y Mileniwm, beth am y cyfle i ddenu gemau prawf criced i Gaerdydd? Dim ond gwerth rhyw £3 miliwn o arian a gymerai, a ddeuai o amrywiaeth o ffynonellau, nid dim ond y Cynulliad neu'r awdurdod lleol. A roddwch eich ymroddiad llawn i ymchwilio i bob cyfle i ddod â gemau prawf criced i Gaerdydd? Os gweithredwch chi a Chlwb Criced Sir Morgannwg yn gyflym, mae cryn bosibilrwydd o ddod â'r Llundw i Gaerdydd erbyn 2009. A ydych yn benderfynol o lwyddo yn hynny o beth?

The First Minister: There is stiff competition in any attempt to bring test-match cricket to Wales from other grounds, such as Lord's, the Oval, Trent Bridge, the Rose Bowl in Hampshire, and so on. My constituents, I am sure, and I, welcome your occasional visitations, Alun, but you have to be aware that the first stage is to establish full credibility in terms of one-day games. There will be a very important game this year

Y Prif Weinidog: Ceir cystadleuaeth galed mewn unrhyw ymgais i ddod â gemau prawf criced i Gymru gan feysydd eraill, fel Lord's, yr Oval, Trent Bridge, y Rose Bowl yn Hampshire, ac yn y blaen. Mae fy etholwyr, yr wyf yn siŵr, a mi, yn croesawu eich ymweliadau achlysurol, Alun, ond rhaid ichi sylweddoli mai'r cam cyntaf yw sefydlu hygredd llwyr o ran gemau undydd. Bydd gêm bwysig iawn eleni rhwng Lloegr a

between England and Pakistan at Sophia Gardens. That is the first home day/night game to be played outside England, and we hope that it will be a sell-out. The problem with test-match cricket is that you cannot really make a big investment if you have only one test match every year, or one every other year, with that capacity not used the rest of the year. You have to have alternative sources of revenue and alternative times of the year when a 17,000-seater stadium would be used. How often can you do that without placing stress on the parking and access facilities of the area? Those are the issues that my constituents and I have been seeking to balance over the past, difficult 12 months.

Val Lloyd: In the Communities First area of Penderry in Swansea East, the community coaches and Rugbywise social inclusion projects have provided young people with opportunities to gain coaching qualifications that boost their employability. A recent evaluation has shown that, among other benefits, the locality has seen a 42 per cent drop in youth annoyance over the first three months. Do you agree that such sports-based projects, which have the capacity to improve health, provide wider life skills and reduce neighbourhood crime, could be replicated as policy initiatives across Wales?

2.10 p.m.

The First Minister: I would have thought that it could. That is a classic diversion tactic. If you can divert people aged between 13 and 16 away from anti-social activities into sport, as the French have done in their deprived areas and communities, not only do you get people coming through who can reach the peaks of professional sport, you also get a reduced level of anti-social behaviour. It is a win-win situation. I commend what is being done in Penderry, and advise other areas with similar youth annoyance problems and so on to consider copying what has been done there.

Phacistan yng Ngerddi Sophia. Honno yw'r gêm ddydd/nos gartref gyntaf i'w chwarae y tu allan i Loegr, a gobeithiwn y gwerthir y tocynnau i gyd. Y broblem gyda gemau prawf criced yw na allwch wneud buddsoddiad mawr mewn gwirionedd os mai dim ond un gêm brawf a gewch mewn blwyddyn, neu un bob yn ail flwyddyn, heb ddefnyddio'r cyfleuster hwnnw weddill y flwyddyn. Rhaid cael ffynonellau refeniw eraill ac adegau eraill o'r flwyddyn pryd y byddai defnydd ar stadiwm 17,000 sedd. Pa mor aml y gellir gwneud hynny heb roi pwysau ar gyfleusterau parcio a mynediad yr ardal? Dyna'r materion y mae fy etholwyr a minnau wedi bod yn ceisio'u mantoli dros y 12 mis anodd diwethaf.

Val Lloyd: Yn ardal Cymunedau'n Gyntaf Penderi yn Nwyrain Abertawe, mae'r prosiect hyfforddwyr cymunedol a phrosiect cynhwysiant cymdeithasol Rugbywise wedi darparu cyfleoedd i bobl ifanc ennill cymwysterau hyfforddi a fydd yn hwb i'w gallu i gael gwaith. Dangosodd gwerthusiad diweddar fod yr ardal, ymhlith manteision eraill, wedi gweld gostyngiad o 42 y cant mewn ymddygiad annifyr gan bobl ifanc yn y tri mis cyntaf. A ydych yn cytuno y gallai prosiectau chwaraeon fel hyn, sydd â'r gallu i wella iechyd, ehangu sgiliau bywyd a lleihau troseddu yn y gymdogaeth, gael eu copïo fel mentrau polisi ledled Cymru?

Y Prif Weinidog: Byddwn wedi tybio y byddai hynny'n bosibl. Mae hynny'n dacteg arallgyfeirio glasurol. Os gallwch droi pobl rhwng 13 ac 16 oed oddi wrth weithgareddau gwrthgymdeithasol at chwaraeon, fel y mae'r Ffrancod wedi gwneud yn eu hardaloedd a'u cymunedau difreintiedig hwy, yr ydych nid yn unig yn cael bod pobl yn gallu cyrraedd uchelfannau chwaraeon proffesiynol, ond hefyd cewch lai o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae pawb ar ei ennill. Cymeradwyaf yr hyn sydd yn cael ei wneud ym Mhenderi, a chynghoraf ardaloedd eraill sydd â phroblemau tebyg o ran annifyrrwch gan bobl ifanc ac yn y blaen i ystyried copïo'r hyn sydd wedi'i wneud yn y fan honno.

Yfed Alcohol Dan Oed **Under-age Consumption of Alcohol**

Q4 Eleanor Burnham: Will the First Minister make a statement on combating under-age consumption of alcohol? OAQ1167 (FM)

The First Minister: We want to reduce under-age consumption of alcohol, in collaboration with the police and community safety partnerships. I am sure that you will be pleased to hear that, over the Christmas period, trading standards officers carried out more than 800 sting operations across Wales, using under-age volunteers who tried to purchase alcohol.

Eleanor Burnham: What is your Labour Assembly Government doing to help educate Welsh youth regarding the perils of excessive binge drinking, and, perhaps, to encourage a healthier, European cafe-culture mentality in our city and town centres, making them more family friendly?

The First Minister: During the academic year to last July, the anti-alcohol education programme was delivered in 1,851 schools, which equates to 97 per cent of the total number of schools in Wales. That police-led initiative involved 464,760 pupils, and it is being rolled out to virtually every school in Wales.

Mark Isherwood: A crackdown on under-age drinking by police and trading standards officers in Corwen and Llangollen has led to the confiscation of large amounts of alcohol from under-age drinkers, fines for those caught buying alcohol for younger people, and prosecutions of those selling alcohol to minors. However, as recently as yesterday, a front-page headline in a Flintshire newspaper referred to anti-social behaviour being linked to alcohol consumption by under-age drinkers. Common sense dictates that we need to tackle causes as well as symptoms. With the new licensing laws, the problems could become more apparent as daylight hours extend and as days and nights become warmer. What actions are you taking with the police and other agencies to tackle this in

Q4 Eleanor Burnham: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fynd i'r afael ag yfed alcohol dan oed? OAQ1167 (FM)

Y Prif Weinidog: Mae arnom eisiau lleihau'r nifer sydd yn yfed alcohol dan oed, mewn cydweithrediad â'r heddlu a phartneriaethau diogelwch cymunedol. Yr wyf yn siŵr y bydd yn dda gennyh glywed bod swyddogion safonau masnach, dros gyfnod y Nadolig, wedi cynnal dros 800 o ymarferion rhwydo ledled Cymru, gan ddefnyddio gwirfoddolwyr dan oed a geisiodd brynu alcohol.

Eleanor Burnham: Beth y mae eich Llywodraeth Lafur yn y Cynulliad yn ei wneud i helpu i addysgu pobl ifanc Cymru am beryglon goryfed mewn pyliau, ac, efallai, i annog meddylfryd iachach y diwylliant caffis Ewropeaidd yn ein dinasoedd a'n trefi, a'u gwneud yn lleoedd brafach i deuluoedd?

Y Prif Weinidog: Yn ystod y flwyddyn academiaidd hyd at fis Gorffennaf diwethaf, cyflwynwyd y rhaglen addysg wrth-alcohol mewn 1,851 o ysgolion, sef 97 y cant o'r holl ysgolion yng Nghymru. Cysylltodd y fenter honno, dan arweiniad yr heddlu, â 464,760 o ddisgyblion, a chaiff ei chyflwyno i bob ysgol yng Nghymru, fwy neu lai.

Mark Isherwood: Wrth i'r heddlu a swyddogion safonau masnach syrthio'n drwm ar yfed dan oed yng Nghorwen a Llangollen, aethpwyd â symiau mawr o ddiodydd alcoholaidd oddi ar yfwyr dan oed, dirwywyd pobl a ddaliwyd yn prynu alcohol i bobl iau, ac erlynwyd pobl a werthai alcohol i rai dan oed. Fodd bynnag, ddoe ddiwethaf, yr oedd pennawd ar dudalen flaen papur newydd yn sir y Fflint yn cyfeirio at gysylltiad rhwng ymddygiad gwrthgymdeithasol ac yfed alcohol dan oed. Dywed synnwyr cyffredin fod angen mynd i'r afael â'r achosion yn ogystal â'r symptomau. Gyda'r deddfau trwyddedu newydd, gallai'r problemau ddod yn amlycach wrth i oriau golau dydd ymestyn ac wrth iddi gynhesu yn ystod y dydd a'r nos. Pa

advance? I note, for example, the wristband scheme that is designed to tackle under-age drinking and which was launched last month across west Suffolk.

The First Minister: We are dodging back and forth between the question of binge drinking and the question of under-age drinking—they are linked, of course, but they tend to have slightly different focuses. We are trying to suppress both problems. You would be a fair enough observer of the social scene, Mark, to say that the introduction of the new licensing laws has not led to the explosion in binge drinking that was feared at one time. We are all pleased about that. I note what you said about the difference that longer daylight hours might make—you may be right, but we will have to wait to see. We hope that our social action programmes, the leadership that we provide, be it in campaigning by the BBC or in the close collaboration between the police and trading standards departments, and the education programmes in schools on under-age drinking, will be successful in making people see that this will seriously damage young people's health.

gamau yr ydych yn eu cymryd gyda'r heddlu ac asiantaethau eraill i fynd i'r afael â hyn ymlaen llaw? Nodaf, er enghraifft, y cynllun bandiau garddwrn y bwriedir iddo fynd i'r afael ag yfed dan oed ac a lanswyd y mis diwethaf ar draws gorllewin Suffolk.

Y Prif Weinidog: Yr ydym yn pigo'n ôl a blaen rhwng cwestiwn goryfed mewn pyliau a chwestiwn yfed dan oed—mae cysylltiad rhyngddynt, wrth reswm, ond mae ffocws y ddau beth yn tueddu i fod ychydig yn wahanol. Yr ydym yn ceisio trechu'r ddwy broblem. Sylw digon teg gennyh ar y sefyllfa gymdeithasol, Mark, fyddai dweud nad yw cyflwyno'r deddfau trwyddedu newydd wedi arwain at y cynnydd anferth mewn goryfed mewn pyliau a ofnid ar un adeg. Yr ydym i gyd yn falch o hynny. Nodaf yr hyn a ddywedasoich am y gwahaniaeth y gallai mwy o oriau golau dydd ei wneud—efallai eich bod yn iawn, ond bydd yn rhaid inni aros i weld. Gobeithiwn y bydd ein rhaglenni gweithredu cymdeithasol, yr arweiniad a rown, boed drwy ymgyrchu gan y BBC neu yn y cydweithio agos rhwng yr heddlu ac adrannau safonau masnach, a'r rhaglenni addysg mewn ysgolion am yfed dan oed, yn llwyddo i wneud i bobl weld y gwnaiff hyn niwed difrifol i iechyd pobl ifanc.

Llwyddiant Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf The Success of the Communities First Programme

Q5 William Graham: Will the First Minister make a statement concerning the success of the Communities First programme in tackling deprivation and poverty in Wales? OAQ1169 (FM)

Q5 William Graham: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am lwyddiant rhaglen Cymunedau yn Gyntaf o ran mynd i'r afael ag amddifadedd a thlodi yng Nghymru? OAQ1169 (FM)

The First Minister: The interim evaluation will report this summer on the success and progress of the programme in tackling deprivation and poverty in the 137 Communities First partnership areas across Wales.

Y Prif Weinidog: Bydd y gwerthusiad interim yn rhoi adroddiad yr haf hwn ar lwyddiant a chynnydd y rhaglen o ran mynd i'r afael ag amddifadedd a thlodi yn y 137 o ardaloedd partneriaeth Cymunedau'n Gyntaf ledled Cymru.

William Graham: The communities of Trevethin, Penygarn and St Cadocs, in Pontypool, received nearly £4 million in grants for Communities First, which is well deserved. However, nearly two thirds of that money is for salaries alone. That seems to do very little to tackle deprivation or poverty.

William Graham: Derbyniodd cymunedau Trefddyn, Pen-y-garn a St Cadocs ym Mhont-y-pŵl bron £4 miliwn mewn grantiau ar gyfer Cymunedau'n Gyntaf, a hynny'n haeddiannol iawn. Fodd bynnag, mae dwy ran o dair bron o'r arian hwnnw ar gyfer cyflogau'n unig. Mae'n ymddangos mai

Would you look at those figures and comment appropriately?

The First Minister: I cannot comment in detail, as you would expect, but the important point is that priorities on how money is spent are set by local partnerships. This is, right at its heart, a bottom-up, rather than a top-down, programme. We need to encourage and facilitate areas that have not been doing well, economically and socially, and which have multiple deprivation, to raise themselves by their own bootstraps. We facilitate it by the aim that they choose the priorities. However, I will look into the case that you have raised, and I will ask Edwina Hart to respond to you.

Jeff Cuthbert: Building on what you have said, do you agree that one of the great strengths and benefits of the Communities First programme is that it has empowered local residents, together with local voluntary groups, to work in partnership with organisations such as the Gwent Association of Voluntary Organisations, the Groundwork Trust and local authorities to improve significantly the communities in which they live and work? Do you also agree that it is right and proper that we work with those groups and individuals, even if, at times, we cannot be sure that the outcome will be as perfect as we want it to be?

The First Minister: I agree. This is about capacity building. Almost by definition, the areas that we are talking about are not areas where you will find a large number of bank managers, university professors, architects and other professionals living. That is the nature of the Communities First partnership. That does not mean that these areas do not have leadership, but that it needs to be drawn out. Sometimes, it will be more collective than it is in areas with a higher percentage of people in white-collar occupations, or people retired from those occupations, who have the time, ability and knowledge from their jobs to organise something. That does not mean that you cannot have leadership. However, you must draw it out, provide training and

ychedig iawn a wnaiff hynny i fynd i'r afael ag amddifadedd a thlodi. A wnewch edrych ar y ffigurau hynny a chyflwyno sylwadau'n briodol.

Y Prif Weinidog: Ni allaf gyflwyno sylwadau manwl, fel y disgwyliech, ond y pwynt pwysig yw mai partneriaethau lleol fydd yn pennu blaenoriaethau ynghylch y modd y caiff arian ei wario. Rhaglen o'r gwaelod i fyny, yn hytrach nag o'r brig i lawr, yw hon yn ei hanfod. Mae angen inni annog a hwyluso ardaloedd sydd heb fod yn gwneud yn dda, yn economaidd ac yn gymdeithasol, ac sydd yn dioddef gan amddifadedd lluosog, i'w hadfer eu hunain drwy eu hymdrechion eu hunain. Byddwn yn hwyluso hyn drwy osod y nod mai hwy sy'n dewis y blaenoriaethau. Fodd bynnag, edrychaf ar yr achos a godwyd gennych, a gofynnaf i Edwina Hart ymateb ichi.

Jeff Cuthbert: Yn sgîl yr hyn yr ydych wedi'i ddweud, a gytunwch mai un o gryfderau a manteision mawr rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yw ei bod wedi grymuso trigolion lleol, ynghyd â grwpiau gwirfoddol lleol, i weithio mewn partneriaeth â mudiadau megis Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent, Ymddiriedolaeth Groundwork ac awdurdodau lleol i wella'n sylweddol y cymunedau y maent yn byw ac yn gweithio ynddynt? A ydych hefyd yn cytuno ei bod yn iawn ac yn briodol inni weithio gyda'r grwpiau a'r unigolion hynny, hyd yn oed os na allwn, ar brydiau, fod yn sicr y bydd y canlyniad mor berffaith ag y dymunwn iddo fod?

Y Prif Weinidog: Ydwyf. Mater o ddatblygu gallu yw hyn. Mae'r ardaloedd yr ydym yn sôn amdanynt, oherwydd eu natur i raddau helaeth, yn ardaloedd lle na welwch nifer fawr o reolwyr banc, athrawon prifysgol, penseiri a phobl broffesiynol eraill yn byw. Hynny yw natur partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf. Nid yw hynny'n golygu nad oes gan yr ardaloedd hyn arweinwyr, ond bod angen meithrin yr arweinwyr hynny. Weithiau bydd mwy o gydweithio nag a welir mewn ardaloedd sydd â chanran uwch o bobl mewn swyddi coler wen, neu bobl sydd wedi ymddeol o'r swyddi hynny, sydd â'r amser, y gallu a'r wybodaeth yn sgîl eu swyddi i drefnu rhywbeth. Nid yw hynny'n golygu na allwch gael arweinwyr. Fodd bynnag, rhaid i

build the capacity.

chi eu meithrin, darparu hyfforddiant a datblygu'r gallu.

Targedau Economaidd Economic Targets

Q6 Alun Ffred Jones: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am lwyddiant Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran cyrraedd targedau economaidd? OAQ1193 (FM)

Q6 Alun Ffred Jones: Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's success in achieving economic targets? OAQ1193 (FM)

Y Prif Weinidog: Y llwyddiant pwysicaf yw bod nifer y bobl mewn gwaith yng Nghymru wedi cynyddu o fwy na 100,000, neu 10 y cant, ers sefydlu'r Cynulliad. Hwn yw'r cynnydd mwyaf ymhlith gwledydd y Deyrnas Unedig a naw rhanbarth Lloegr. Yn ystod yr un cyfnod, mae cyflogaeth yn y DU gyfan wedi cynyddu ychydig yn fwy na 6 y cant.

The First Minister: The most important achievement is that employment in Wales has increased by more than 100,000, or 10 per cent, since the Assembly's inception. That is the biggest increase out of any of the countries of the United Kingdom or the nine English regions. Over the same period, employment has increased by just over 6 per cent across the UK as a whole.

Alun Ffred Jones: Mae eich Llywodraeth wedi methu â chyrraedd nifer o dargedau economaidd, er gwaethaf yr ateb hwnnw. Er enghraifft, mae targed o gyrraedd gwerth ychwanegol crynswth o 90 y cant mor bell ag y bu erioed, ac, wrth gwrs, nid yw hwnnw bellach yn darged. Mae rhaglen Amcan 1 yn cynnwys targed i greu swyddi a chynyddu gwerth mewnwladol crynswth, ac mae 'Cymru: Economi yn Ffynnu' bellach wedi mabwysiadu dangosyddion olrhain i fesur datblygiad economaidd. A yw hyn yn arwydd eich bod yn rhoi'r gorau i osod targedau sy'n debygol o fod yn anodd eu cyrraedd?

Alun Ffred Jones: Despite that response, your Government has failed to meet several economic targets. For example, meeting the target of achieving 90 per cent of gross value added is as distant as it ever was, and, of course, it is no longer a target. A target on job creation and increasing gross domestic product is contained in the Objective 1 programme, and 'Wales: A Vibrant Economy' has now adopted tracking indicators to measure economic development. Is this an indication of the fact that you no longer intend to set targets that will be difficult to achieve?

Y Prif Weinidog: Yr oeddwn yn deall bod tua 10 o dargedau yn 'Cymru: Economi yn Ffynnu'. Os wyf yn anghywir ynghylch hynny, gofynnaf i Andrew Davies ysgrifennu atoch.

The First Minister: It is my understanding that 'Wales: A Vibrant Economy' contains around 10 targets. If I am wrong about that, I will ask Andrew Davies to write to you.

Jonathan Morgan: You were clear in the debate held on 13 December 2001 that the wish to reach the target of 90 per cent of average UK GDP was just that—a target. Those were your words in the Chamber. If the Government cannot reach targets or is keen to fudge or ditch them, what is the point of announcing them in the first place? Without targets, how can the public measure the achievement and success of the National Assembly?

Jonathan Morgan: Yr oeddech yn glir yn ystod y ddadl a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2001 mai targed mewn gwirionedd oedd y dymuniad i gyrraedd y targed o 90 y cant o gyfartaledd CMC y DU. Eich geiriau chi yn y Siambr oedd hynny. Os na all y Llywodraeth gyrraedd targedau neu os yw'n awyddus i'w cymylu neu i gael gwared â hwy, beth yw diben eu cyhoeddi yn y lle cyntaf? Heb dargedau, sut y mae modd i'r cyhoedd fesur a ydyw'r Cynulliad Cenedlaethol yn cyflawni ac yn llwyddo?

The First Minister: That was expressed as an aim and not a target because there were too many factors beyond our control. It is as simple as that. The 10 targets in 'WAVE' are closer to what is under our control. You will see that that is the target information that we are using. They are all good ways of measuring success, but they do not depend so much on external factors over which we have no control. For example, these would include the sterling-euro exchange rate, which went catastrophically against the interests of manufacturing in this country in 2000. At that time, the euro was worth 56p, as opposed to its 71p launch rate the previous year.

Y Prif Weinidog: Nod yn hytrach na tharged oedd hynny oherwydd bod gormod o ffactorau y tu hwnt i'n rheolaeth. Mae mor syml â hynny. Mae'r 10 targed yn 'WAVE' yn nes at yr hyn y gallwn ei reoli. Gwelwch mai hynny yw'r wybodaeth darged yr ydym yn ei defnyddio. Maent i gyd yn ddulliau da o fesur llwyddiant, ond nid ydynt yn dibynnu cymaint ar ffactorau allanol nad oes gennym reolaeth drostynt. Er enghraifft, byddai'r rhain yn cynnwys y gyfradd gyfnewid sterling-ewro, a gafodd effaith drychinebus ar fuddiannau gweithgynhyrchu yn y wlad hon yn 2000. Bryd hynny, yr oedd yr ewro'n werth 56c, o'i gymharu â'i gyfradd o 71c pan lanswyd ef yn y flwyddyn flaenorol.

Jenny Randerson: I listened with interest as you quoted the figures for jobs created. The figure that you did not quote was the 13 per cent increase in the number claiming jobseekers' allowance in Cardiff Central between December 2004 and December 2005. The number went up from 1,177 claimants to 1,330. You are fond of claiming success with your economic development policies, but can you explain this obvious failure?

Jenny Randerson: Gwrandewais gyda diddordeb wrth i chi ddyfynnu'r ffigurau ar gyfer y swyddi a grewyd. Y ffigur na wnaethoch ei ddyfynnu oedd y cynnydd o 13 y cant yn y nifer a oedd yn hawlio'r lwfans ceisio gwaith yng Nghanol Caerdydd rhwng Rhagfyr 2004 a Rhagfyr 2005. Cynyddodd y nifer o 1,177 o hawlwyd i 1,330. Yr ydych yn hoff o honni ichi lwyddo gyda'ch polisiau datblygu economaidd, ond a allwch esbonio'r methiant amlwg hwn?

2.20 p.m.

The First Minister: Everything is relative. However, over the life of the Assembly, the big picture is how many more people now have jobs compared with the figure when the Assembly started. That is the big picture. We are no. 1 out of the 12 constituent parts of the UK. That is the big, important picture, and that is the most comprehensive picture of success—to be first of 12, and with a 10 per cent increase in jobs, compared with 6 per cent in the UK. The UK is doing well by European standards, and we are well ahead of the rest of the UK, and first out of 12. That is pretty good.

Y Prif Weinidog: Mae popeth yn gymharol. Fodd bynnag, yn ystod oes y Cynulliad, y darlun mawr yw faint yn rhagor o bobl sydd â swydd yn awr o'i gymharu â'r ffigur pan ddechreuodd y Cynulliad. Dyna'r darlun mawr. O blith 12 rhan gyfansoddol y DU, ni sydd ar y brig. Dyna'r darlun mawr, pwysig, a dyna'r darlun mwyaf cynhwysfawr o lwyddiant—mai ni sydd ar y blaen o blith 12, a chyda chynnydd o 10 y cant yn nifer y swyddi, o'i gymharu â 6 y cant yn y DU. Mae'r DU yn gwneud yn dda o'i gymharu â safonau Ewrop, ac yr ydym ninnau ymhell ar y blaen i weddill y DU, ac ar y brig o blith 12. Mae hynny'n bur dda.

You are right to say that the economy slowed down in 2005, and that, over Wales as a whole, the claimant count went up by 5,000, from 39,500 to 44,500. However, compare that with figures three and four times bigger during the bulk of the period when the Conservatives were in office, and you can see

Yr ydych yn iawn wrth ddweud bod yr economi wedi arafu yn 2005, a bod nifer yr hawlwyd, yng Nghymru, drwyddi draw, wedi cynyddu 5,000, o 39,500 i 44,500. Fodd bynnag, cymharwch hynny â ffigurau deirgwaith a phedair gwaith yn fwy yn ystod y rhan fwyaf o'r cyfnod pan oedd y

how successful that is, relative to anything that happened when the Conservatives were around.

Arweinydd yr Wrthblaid (Ieuan Wyn Jones): Hoffwn ddod â chi yn ôl at yr adroddiad hanner tymor ar raglenni Amcan 1. Mae'r adroddiad hwn, a gomisiynwyd gan y Llywodraeth, yn gweld sut yr ydych wedi mesur yn erbyn y targedau yr oeddech wedi eu gosod i chi eich hun ar ddechrau'r rhaglen. Mae'r adroddiad yn ei gwneud yn glir eich bod wedi methu ar y targed o ran nifer y swyddi yr oeddech yn mynd i'w creu, wedi methu ar y targed o greu busnesau newydd, ac wedi methu ar y targed o gyrraedd eich nod cynnyrch mewnwladol crynswth.

Gan fod y Llywodraeth wedi methu ar gymaint o dargedau allweddol, sut y medrwn fod yn hyderus, o dan y Llywodraeth Lafur hon, y bydd Cymru'n well o dan raglen 2007-13?

Y Prif Weinidog: Nid yw'r ffigurau manwl hynny gennyf ar hyn o bryd er mwyn gwirio yr hyn a ddywedwch. Gwn fod y gwerthuso hanner ffordd wedi digwydd, a gwn fod cwestiwn ynglŷn â chysoni'r ffigurau a ddefnyddiwyd yn y broses werthuso hon ac mewn gwledydd neu ardaloedd eraill sydd wedi cael yr un broses werthuso. Mae elfen o anghysondeb yn rhai o'r dadleuon ynghylch yr ystadegau. Y peth pwysig yw gofyn a yw Cymru'n tyfu'n economaidd. Mae hi. A yw hi wedi gorffen y broses o ddal i fyny? Nac ydyw, o bell ffordd. Yn ffodus, oherwydd ein bod wedi cymryd cipolwg ar a ydym yn haeddu cael statws Amcan 1 eto i orllewin Cymru a'r Cymoedd, ac am fod y gwerthuso wedi'i seilio ar ffigurau a oedd yn bodoli bedair neu bum mlynedd yn ôl, cyn bod Amcan 1 wedi cael siawns i roi unrhyw fath o hwb i'n heconomi, yr ydym yn cael ail sesiwn o Amcan 1, gan ddechrau 11 mis i heddiw.

Ieuan Wyn Jones: Synnaf nad yw'r ffigurau hyn gennyf. Comisiynwyd yr adroddiad hwn gan y Llywodraeth, fe'i cwblhawyd ers mis Rhagfyr 2005, ac fe'i lluniwyd gan rywun a oedd yn ymgynghorydd arbennig i Alun Michael. Ni allwch ddweud, felly, nad yw'r adroddiad yn wybyddus i'ch

Ceidwadwyr mewn grym, ac fe welwch pa mor llwyddiannus yw hynny, o'i gymharu ag unrhyw beth a ddigwyddodd pan oedd y Ceidwadwyr wrthi.

The Leader of the Opposition (Ieuan Wyn Jones): I want to bring you back to the half-term report on Objective 1 programmes. This report, commissioned by the Government, examines how you measure against the targets that you set yourselves at the outset of the programme. The report makes it clear that you have failed to meet the target on the number of jobs that you were going to create, you have failed to meet the target of creating new businesses, and you have failed to meet the target of reaching your gross domestic product aim.

Given that the Government has failed on so many crucial targets, how can we be confident that, under this Labour Government, Wales will be better off under the 2007-13 programme?

The First Minister: I do not have those detailed figures to hand at present to check what you say. I know that the half-term evaluation has taken place, and I know that there was a question over regulating the figures used in this evaluation report and those in other countries or regions that have undergone the same evaluation process. There is an element of inconsistency in some of the arguments relating to the statistics. The important thing is to ask whether Wales is growing economically. It is. Has it completed the process of catching up? No, far from it. Fortunately, because we have taken a snapshot of whether we deserve Objective 1 status again for west Wales and the Valleys, and because the evaluation was based on figures that existed four or five years ago, before Objective 1 had had an opportunity to give the economy any sort of boost, we are having a second round of Objective 1, beginning 11 months today.

Ieuan Wyn Jones: I am surprised that you do not have these figures to hand. This report was commissioned by the Government, it was completed in December 2005, and was drafted by someone who was a special adviser to Alun Michael. You cannot say, therefore, that your Government is not aware

Llywodraeth. Synnaf yn fawr nad ydych wedi sylweddoli bod hwn yn dangos yn glir eich bod wedi methu yn eich targedau.

Mae dau beth arall ymhlyg yn yr adroddiad. Un yw, hyd yn oed gyda'r swyddi sydd wedi eu creu, mae lefelau cyflogau yn 'sylweddol is' na chyfartaledd cyflogaeth yng Nghymru. Felly, mae'r swyddi newydd hyn wedi creu swyddi lle mae cyflogau yn isel. Yn ail, oherwydd nad oes busnesau newydd wedi'u creu yn ôl y targed, mae'r economi yn yr ardal Amcan 1 yn llai cynaliadwy nag y gallai fod. Oni dderbyniwch fod hynny, gan adroddiad a gomisiynwyd gennych, yn feirniadaeth ddeifiol?

Y Prif Weinidog: Yr hyn a ddywedais oedd nad yw'r adroddiad, na'r ffigurau sydd ynddo, gennyf ar hyn o bryd. Fodd bynnag, yr wyf yn ymwybodol o fodolaeth yr adroddiad gwerthuso hanner ffordd hwn, a gwn pwy a'i hysgrifennodd. Gwn hefyd y bu dadlau ynglŷn â chysondeb sut yn union i fesur beth yw ennill swyddi newydd net a bras. Dyna'r ddadl rhwng y broses a'r mesur gwerthuso a wnaed yng Nghymru, o'i chymharu â gwledydd eraill sy'n derbyn arian Amcan 1.

Gan nad yw'r ffigurau gennyf, dywedaf hyn. Mae pawb yn derbyn bod gennym lawer o ffordd i fynd i ailwampio ein heconomi. Fodd bynnag, ar ôl dirywiad hir o dan y Toriaid, yr ydym wedi gweld, yn ystod bodolaeth y Cynulliad, na fu dirywiad, ac mae'r broses o ennill tir wedi dechrau.

Ieuan Wyn Jones: That is trying to wriggle out of your responsibility. As an opposition, we are entitled to ask why you have failed to meet your specific targets. You have failed to meet your targets on jobs, on business creation, and you have also failed in terms of your GDP levels. Given the fact that these are targets that you set and which you said that your Government wanted to achieve under this programme, are the people of Wales not entitled, given that this was a Government-commissioned report, to say that Labour has failed the people of Wales on Objective 1, and that they had better look for someone else to do a better job next time?

of this report. I am very surprised that you have not realised that this shows clearly that you have missed your targets.

Two other issues are implicit in this report. One is that, even with the jobs that have been created, salary levels are 'significantly less' than average employment in Wales. Therefore, these new jobs that have been created are jobs on low incomes. Secondly, because no new businesses have been created in line with the target, the economy in the Objective 1 area is less sustainable than it could be. Do you not accept that that, in a report commissioned by you, is a harsh criticism?

The First Minister: What I said was that I did not have the report, or the figures contained in it, to hand. However, I am aware of the existence of this halfway evaluation report, and I know who wrote it. I also know that there has been some dispute about the consistency of how exactly to measure the creation of new net and gross jobs. That is the argument between the evaluation process and measurement that took place in Wales, compared with other countries that receive Objective 1 funding.

As I do not have the figures to hand, I will just say this. Everyone accepts that we have a long way to go in regenerating our economy. However, following a long period of decline under the Tories, we have seen, since the Assembly's inception, a halt in that decline. The process of gaining ground has begun.

Ieuan Wyn Jones: Ceisio osgoi eich cyfrifoldeb yw hynny. Fel gwrthblaid, mae gennym hawl i ofyn pam yr ydych wedi methu â chyrraedd eich targedau penodol. Yr ydych wedi methu â chyrraedd eich targedau ar gyfer swyddi, ar gyfer creu busnes, ac yr ydych hefyd wedi methu o ran eich lefelau CMC. Gan mai targedau a osodwyd gennych chi yw'r rhain, rhai y dywedasoich fod eich Llywodraeth yn dymuno'u cyflawni dan y rhaglen hon, onid oes gan bobl Cymru yr hawl, gan mai adroddiad a gomisiynwyd gan y Llywodraeth oedd hwn, i ddweud bod Llafur wedi gwneud cam â hwy o ran Amcan 1, ac y byddai'n well iddynt chwilio am rywun arall i wneud gwell sioe ohoni y tro nesaf?

The First Minister: I do not think that they will see as failure being no. 1 out of the 12 constituent parts of the United Kingdom. Over the six and a half years in which the Assembly has been in existence, who has been the champion of the premier division in net job creation in the UK? It is Wales. It is not Scotland, Northern Ireland or any of the nine English regions, but Wales. People will therefore say, 'Well, that is a pretty good start'. The single biggest, most general measure of relative economic success is the job total now compared with what it was in May 1999 when we took over our responsibilities. We are first out of 12, and you cannot gainsay that. Out of a very successful UK economy compared with that of Europe, we are still first out of the 12 constituent parts of the UK.

Y Prif Weinidog: Ni chredaf y byddant yn barnu mai methiant yw bod ar y brig o blith 12 rhan gyfansoddol y Deyrnas Unedig. Yn ystod chwe blynedd a hanner oes y Cynulliad, pwy sydd wedi bod yn bencampwr yr uwch gynghrair o ran creu swyddi net yn y DU? Cymru. Nid yr Alban, Gogledd Iwerddon na dim un o'r naw rhanbarth yn Lloegr, ond Cymru. Felly, bydd pobl yn dweud, 'Wel, mae hynny'n ddechrau pur dda'. Yr un mesur mwyaf, mwyaf cyffredinol o lwyddiant economaidd cymharol yw cyfanswm y swyddi yn awr o'i gymharu â'r hyn ydoedd ym Mai 1999 pan wnaethom ysgwyddo'n cyfrifoldebau. Ni sydd ar y brig o blith 12, ac ni allwch wadu hynny. O ran economi'r DU, sy'n llwyddiannus iawn o'i chymharu ag economi Ewrop, yr ydym yn dal i fod ar y brig o blith 12 rhan gyfansoddol y DU.

On your points about the process of evaluating Objective 1, I do not have the figures before me, but I recall that there was an argument about the way in which the net and gross jobs and the particular application of the measurement of jobs was done relative to how it was done in other Objective 1 areas. I will have to write to you on that particular issue.

Ynglŷn â'ch pwyntiau ynghylch proses gwerthuso Amcan 1, nid yw'r ffigurau gennyf o'm blaen, ond cofiaf fod dadl wedi bod ynghylch y modd y cafodd y swyddi net a chryswth eu cyfrifo a'r dull penodol a ddefnyddiwyd i fesur y swyddi o'i gymharu â'r modd y gwnaed hynny mewn ardaloedd Amcan 1 eraill. Bydd rhaid i mi ysgrifennu atoch ynglŷn â'r mater penodol hwnnw.

Rôl Llywodraeth Leol yng Nghymru The Role of Local Government in Wales

Q7 David Melding: Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's policies to develop and enhance the role of local government in Wales? OAQ1175(FM)

Q7 David Melding: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu a gwella rôl llywodraeth leol yng Nghymru? OAQ1175(FM)

The First Minister: It will draw on an increased willingness to work across boundaries, both within and between councils. The annual report of the chief inspector of social services, published last week, recorded a renewed commitment to improvement, with strong leadership from the Welsh Local Government Association in taking collective responsibility for the good reputation and performance of all social services in Wales.

Y Prif Weinidog: Bydd yn defnyddio'r parodrwydd cynyddol i weithio ar draws ffiniau, o fewn cynghorau a rhyngddynt. Yn adroddiad blynyddol prif arolygydd y gwasanaethau cymdeithasol, a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf, cofnodwyd ymrwymiad newydd i wella, gydag arweiniad cadarn gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrth iddynt ysgwyddo cydgyfrifoldeb dros enw da a pherfformiad yr holl wasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

David Melding: Do you agree that the changes introduced to the way in which local

David Melding: A ydych yn cytuno bod y newidiadau a gyflwynwyd i'r modd y mae

councils deliver their executive functions are now bedding in, and that we can see the advantages in terms of accountability and also the possibility of driving up the standards of public services? However, do you also agree that there is now a need to improve the scrutiny function of local government, where perhaps we have not made as much progress as we should have in the past five or six years?

The First Minister: Psychologically, I am sure that you are correct. People do not understand their scrutiny function, in that if they are not on the front bench or the so-called 'cabinet', they wonder what their exact function is. They have not really grasped the vital function that scrutiny can perform. However, I think that that is catching up quite quickly, and few authorities now are as unhappy as they were when the new pattern was introduced two or three years ago.

David Lloyd: Pa drafodaethau yr ydych wedi'u cynnal gyda llywodraeth leol parthed cost cyflog cyfartal?

Y Prif Weinidog: Mae hynny'n rhan o'n polisi ni, sef y dylai llywodraeth leol fod yn cynnal adolygiadau i ganfod gwendidau. Wedyn, bydd angen inni weld unrhyw ffeithiau sy'n codi o'r adolygiadau hynny. Yr ydym wedi gwneud yr un peth o fewn y Cynulliad a'r cwangos, ond nid wyf yn siŵr beth yw'r darlun o fewn llywodraeth leol. Byddaf yn ysgrifennu atoch, neu yn gofyn i Jane Hutt wneud ar y pwnc hwn.

The Leader of the Welsh Liberal Democrat Group (Michael German): Last year, your Finance Minister threatened to cap local councils in Wales, which was a measure that even John Redwood had turned his back on. Will you be threatening to cap local authorities this year?

The First Minister: Most people living in most local authority areas in Wales, especially in Cardiff, will be saying 'Thank God she did'. If you walk around the streets of Cardiff and ask people, 'Do you think that

cynghorau lleol yn cyflawni eu swyddogaethau gweithredol yn ymsefydlu erbyn hyn, a'n bod yn gallu gweld y manteision o ran atebolrwydd a hefyd y posibilrwydd o godi safonau gwasanaethau cyhoeddus? Fodd bynnag, a ydych hefyd yn cytuno bod angen inni yn awr wella swyddogaeth graffu llywodraeth leol, a ninnau efallai heb wneud cymaint o gynnydd ag y dylem fod wedi'i wneud yn ystod y pum neu'r chwe mlynedd diwethaf?

Y Prif Weinidog: Yn seicolegol, yr wyf yn sicr eich bod yn gywir. Nid yw pobl yn deall eu swyddogaeth graffu, am eu bod yn pendroni ynghylch beth yn union yw eu swyddogaeth os nad ydynt ar y fainc flaen neu'n aelod o'r 'cabinet' bondigrybwyll. Nid ydynt mewn gwirionedd wedi deall y swyddogaeth hanfodol y gall craffu ei chyflawni. Fodd bynnag, credaf fod y sefyllfa'n gwella'n weddol gyflym, ac ychydig o awdurdodau erbyn hyn sydd mor anhapus ag a oeddent pan gyflwynwyd y patrwm newydd ddwy neu dair blynedd yn ôl.

David Lloyd: What discussions have you had with local government regarding the cost of equal pay?

The First Minister: That is part of our policy, namely that local government should be conducting reviews to identify weaknesses, and that we then will need to look at any facts that arise from those reviews. We have done the same within the Assembly and the quangos, but I am not sure what the picture is in local government. I will write to you, or I will ask Jane Hutt to do so on this issue.

Arweinydd Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Michael German): Y llynedd, cafwyd bygythiad gan eich Gweinidog dros Gyllid i gapio cynghorau lleol yng Nghymru, cam yr oedd hyd yn oed John Redwood wedi ymwrthod ag ef. A fyddwch yn bygwth capio awdurdodau lleol eleni?

Y Prif Weinidog: Bydd y rhan fwyaf o'r bobl sy'n byw yn y rhan fwyaf o ardaloedd yr awdurdodau lleol yng Nghymru, yn enwedig yng Nghaerdydd, yn dweud 'Diolch i Dduw ei bod wedi gwneud hynny'. Os cerddwch o

Sue Essex was right to do this?', you will find that they say, 'Thank God she did'. In the end, it was not necessary, because the Liberal Democrat-controlled council backed off what appeared to be a course hell-bent on some sort of political set-to, which was quite unnecessary. It is not a pleasant thing to do but, on the other hand, sometimes you have to face up to those responsibilities, because you realise that bigger issues are at stake.

gwmpas strydoedd Caerdydd a gofyn i bobl 'A ydych yn credu bod Sue Essex yn iawn wrth wneud hyn?', yr ateb a gewch fydd 'Diolch i Dduw ei bod wedi gwneud hynny'. Yn y pen draw, ni fu'n rhaid cymryd y cam, oherwydd bod y cyngor, dan reolaeth y Democratiaid Rhyddfrydol, wedi troi'n ôl oddi ar lwybr a oedd yn sicr o arwain at ymrafael gwleidyddol, sefyllfa gwbl ddianghenraid. Nid yw'n beth braf i'w wneud, ond ar y llaw arall, weithiau, mae'n rhaid wynebu'r cyfrifoldebau hynny, oherwydd eich bod yn sylweddoli bod materion pwysicach yn y fantol.

2.30 p.m.

Michael German: I will take that as a 'yes' and that you are intent on capping again this year or that there is a threat of capping this year, especially as your regime last year was threatening to cap Cardiff council with a negative increase. In other words, you told it that it had to make a reduction in its council tax—the previous Labour administration had obviously gone wrong somewhere, because you had to correct that when there was a different administration in. First Minister, currently £8 out of every £10 that local government in Wales spends comes from the National Assembly. Where is the local democracy in that and what are you doing to ensure that local authorities have more opportunity to develop their own policies and that real devolution is at work in Wales?

Michael German: Cymeraf mai'r ateb oedd 'byddwn'a'ch bod yn benderfynol o gapio eto eleni neu fod bygythiad i gapio eleni, yn enwedig o gofio bod eich Llywodraeth wedi bygwth capio cyngor Caerdydd y llynedd drwy roi cynnydd negyddol. Mewn geiriau eraill, dywedasoeh wrtho fod rhaid iddo ostwng ei dreth gyngor—mae'n amlwg bod y weinyddiaeth Lafur flaenorol wedi gwneud rhyw gamgymeriad, gan eich bod wedi gorfod cywiro hynny pan oedd gweinyddiaeth arall mewn grym. Brif Weinidog, ar hyn o bryd mae £8 o bob £10 y mae llywodraeth leol yng Nghymru'n ei wario'n dod oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol. Sut y gellir galw hynny'n ddemocratiaeth leol a pha gamau yr ydych yn eu cymryd i sicrhau bod yr awdurdodau lleol yn cael mwy o gyfle i ddatblygu eu polisiau eu hunain a bod datganoli gwirioneddol ar waith yng Nghymru?

The First Minister: Actually, I think what happened is that the Lib-Dem council in Cardiff was spoken to by Lib-Dem councils in Swansea and Bridgend, who said 'Don't do anything so foolish'. Thank God that they did. The important thing then is to say 'Okay, 20 per cent of funding comes from central Government and the revenue support grant covers 80 per cent of expenditure'. Local authorities put a lot of emphasis on an expectation that if we give them a job to do they are funded through the revenue support grant or hypothecated grants to cover that expenditure. That is a good principle: if we give them more jobs, we pay them to do those jobs. If we intend for them to carry out

Y Prif Weinidog: Mewn gwirionedd, yr wyf yn credu mai'r hyn a ddigwyddodd oedd bod cynghorau'r Democratiaid Rhyddfrydol yn Abertawe a Phen-y-bont ar Ogwr wedi cael gair â chyngor y Democratiaid Rhyddfrydol yng Nghaerdydd, a'u bod wedi dweud 'Peidiwch â bod mor wirion'. Diolch byth eu bod wedi gwneud hynny. Y peth pwysig wedyn yw dweud 'O'r gorau, mae 20 y cant o'r arian yn dod oddi wrth Lywodraeth ganolog ac mae'r grant cynnal refeniw'n gofalu am 80 y cant o'r gwariant'. Mae awdurdodau lleol yn rhoi llawer o bwyslais ar ddisgwyl y byddant yn cael arian, os byddwn yn rhoi gwaith iddynt, drwy'r grant cynnal refeniw neu grantiau sydd wedi eu clustnodi

increased responsibilities, then we need to refund them for the cost of carrying them out.

Unfortunately, it has the effect that you are describing, but I do not want you to go to the other extreme—the William Hague extreme of his last year, when he decided that we had to have a kind of stealth tax in Wales, by which local government council tax had to increase by 18 per cent, if you recall, compared to 9 per cent in England.

Michael German: The question that I was asking you, beyond the bits of mythology that we are having this afternoon, was whether it is right, when you have local government, local democracy and devolution at work, that £8 out of every £10 that local councils spend should come from the National Assembly? Should there not be more devolution? Should local government not be set free by you, and, if you think so, how do you intend to do it?

The First Minister: That is precisely the point: if we give local authorities a job to do, that is, to run the schools and to pay the teachers, then they will say, 'Okay, well, you give us the money to pay the teachers and we will pay the teachers'. That is a huge expenditure. We expect them to look after children, and therefore they will say, 'Okay, well, you pay the social workers, or we will have to pay the social workers.' We have to give them the money. I do not know what you are advocating other than the Hagueite point of, 'Well, you have to reduce this amount, and therefore you are more on your own'. That would be absurd; I do not think that we want to go down that road at all. I do not ever want to see 18 per cent increases in council tax in Wales, as we had under William Hague. What is important is, if you give local government a job to do, that you have to find the money for it to do it. That does have the consequences that you have expressed, but I do not see any alternative.

ar gyfer y gwariant hwnnw. Mae honno'n egwyddor dda: os rhoddwn fwy o waith iddynt, talwn iddynt am wneud y gwaith hwnnw. Os ydym yn bwriadu iddynt gyflawni mwy o gyfrifoldebau, rhaid inni adalu iddynt am gost eu cyflawni.

Gwaetha'r modd, caiff hynny'r effaith yr ydych yn ei disgrifio, ond nid wyf am ichi fynd i'r eithaf arall—a mynd dros ben llestri fel y gwnaeth William Hague yn ystod ei flwyddyn olaf, pan benderfynodd fod rhaid inni gael rhyw fath o dreth lechwraidd yng Nghymru, a olygai fod rhaid i dreth gyngor llywodraeth leol godi 18 y cant, os cofiwch, o'i gymharu â 9 y cant yn Lloegr.

Michael German: Y cwestiwn a ofynnais i chi, gan anghofio'r hanesion di-sail yr ydym yn eu clywed y prynhawn yma, oedd a ydyw'n iawn, pan fo llywodraeth leol, democratiaeth leol a datganoli ar waith, fod £8 o bob £10 y mae cynghorau lleol yn ei wario'n dod oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol? Oni ddylid cael mwy o ddatganoli? Oni ddylech ryddhau llywodraeth leol, ac, os credwch y dylech, sut yr ydych yn bwriadu gwneud hynny?

Y Prif Weinidog: Dyna daro'r hoelen ar ei phen: os rhoddwn waith i'w wneud gan awdurdodau lleol, hynny yw, rhedeg yr ysgolion a thalu i'r athrawon, byddant yn dweud, 'O'r gorau, rhowch chi'r arian i ni i dalu i'r athrawon ac fe dalwn i'r athrawon'. Mae hwnnw'n swm anferth o wariant. Yr ydym yn disgwyl iddynt ofalu am blant, ac felly byddant yn dweud, 'O'r gorau, talwch chi i'r gweithwyr cymdeithasol, neu byddwn ni'n gorfod talu iddynt.' Rhaid inni roi'r arian iddynt. Nid wyf yn gwybod beth yr ydych yn ei argymhell heblaw'r pwynt a wnaeth Hague, sef, 'Wel, rhaid ichi ostwng y swm hwn, ac felly yr ydych ar eich pen eich hun i fwy o raddau'. Byddai hynny'n hurt; nid wyf yn credu ein bod am ddilyn y llwybr hwnnw o gwbl. Nid wyf byth am weld y dreth gyngor yn codi 18 y cant yng Nghymru, fel y digwyddodd dan William Hague. Yr hyn sydd yn bwysig yw, os rhoddwch waith i lywodraeth leol, fod rhaid ichi ddod o hyd i'r arian iddi gael ei wneud. Mae hynny'n arwain at y canlyniadau yr ydych wedi eu disgrifio, ond nid wyf yn gweld bod dewis arall.

Diogelwch Plant yn yr Ysgol Children's Safety in Schools

Q8 Laura Anne Jones: Will the First Minister make a statement on the measures in place to ensure children's safety in Welsh schools? OAQ1170(FM)

The First Minister: On 24 January, Jane Davidson wrote to those working in education, setting out the strengthened arrangements in Wales for safeguarding children, and how Ruth Kelly's proposals will have an impact here and in England. We remain totally committed to promoting children's safety in schools in Wales.

Laura Anne Jones: Parents throughout my constituency and throughout Wales are desperately worried for their children's safety since it was highlighted that there are flaws in the system used to prevent registered sex offenders from teaching in schools. With this being first and foremost in people's minds, First Minister, I urge you strongly to ensure that our children's safety is first and foremost in your mind in implementing these proposals as soon as possible. However, in general, it has come to light that nearly one in 10 primary schools in Wales have shortcomings in child-protection measures as a whole. How are you tackling this and ensuring our children's safety across the board?

The First Minister: If you read—it is a very long letter, but it needs to be—the letter that Jane Davidson sent out on 24 January, you will see that it covers every aspect of the necessary changes that will cover the gaps that I think that you are referring to between the sex offenders register, List 99 and the Protection of Children Act 1999 list, which covers people who are not directly in education, and ensure that there is a seamless protection of children. If you have not had a copy, I am sure that I can supply one to Assembly Members. We do not know of any individual case that would have slipped through that net, so, on the 'desperately worried' point, I would press you not to encourage parents' worries, but to encourage their reassurance, because we have no knowledge of anyone who has slipped

Q8 Laura Anne Jones: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y mesurau sydd ar waith er mwyn sicrhau diogelwch plant yn ysgolion Cymru? OAQ1170(FM)

Y Prif Weinidog: Ar 24 Ionawr, ysgrifennodd Jane Davidson at y rhai sydd yn gweithio ym myd addysg, gan ddisgrifio'r trefniadau cadarnach yng Nghymru ar gyfer diogelu plant, a'r effaith a gaiff cynigion Ruth Kelly yma ac yn Lloegr. Yr ydym wedi llwyr ymrwymo o hyd i hyrwyddo diogelwch plant mewn ysgolion yng Nghymru.

Laura Anne Jones: Mae rhieni ledled fy etholaeth a ledled Cymru'n poeni'n ddirfawr ynghylch diogelwch eu plant er pan dynnwyd sylw at y ffaith bod diffygion yn y system a ddefnyddir i atal troseddwy'r rhyw cofrestredig rhag dysgu mewn ysgolion. Gan mai am hyn y mae pobl yn meddwl yn anad dim, Brif Weinidog, yr wyf yn eich taer annog i sicrhau mai am ddiogelwch ein plant yn anad dim y byddwch yn meddwl wrth roi'r cynigion hyn ar waith cyn gynted ag y bo modd. Fodd bynnag, yn gyffredinol, cafwyd gwybod bod diffygion yn y mesurau amddiffyn plant mewn un o bob 10 bron o'r ysgolion cynradd yng Nghymru at ei gilydd. Sut yr ydych yn delio â hynny ac yn gofalu am ddiogelwch ein plant yn gyffredinol?

Y Prif Weinidog: Os darllenwch y llythyr—mae'n llythyr hir iawn, ond rhaid iddo fod yn hir—a anfonodd Jane Davidson ar 24 Ionawr, gwelwch ei fod yn ymdrin â phob agwedd ar y newidiadau angenrheidiol a fydd yn cau'r bylchau yr wyf yn credu eich bod yn cyfeirio atynt rhwng y gofrestr troseddwy'r rhyw, Rhestr 99 a rhestr Deddf Amddiffyn Plant 1999, sydd yn cynnwys rhai nad ydynt yn ymwneud ag addysg yn uniongyrchol, ac yn sicrhau bod amddiffyniad di-fwlch ar gyfer plant. Os na chawsoch gopi, yr wyf yn siŵr y gallaf roi un i Aelodau'r Cynulliad. Nid ydym yn gwybod am ddim un achos unigol a fyddai wedi mynd drwy'r rhwyd, felly, ynghylch y pwynt am 'boeni'n ddirfawr', yr wyf yn eich annog i beidio ag ennyn pryderon rhieni ond, yn hytrach, i dawelu eu meddyliau, gan nad ydym yn gwybod am neb

through the net. I believe that that has been the case for considerable time. What is important is that schools realise that, as employers, they have to take the responsibility of making sure that they undertake those checks. That applies to schools in the private, the diocesan, the voluntary-aided and the state sectors.

Gwenda Thomas: Do you agree that, later this afternoon, the discussion on the regulation for the commencement of section 175 of the Education Act 2002 will mean that the protection of our children in schools will be considerably improved?

The First Minister: We certainly expect that local education authorities, governing bodies, and further education institutions will make arrangements under section 175 to safeguard and promote the welfare of children. The consultation on the accompanying statutory guidance highlights the need for policies and procedures to be in place. However, they are all based on the premise of employers accepting their responsibility to carry out the checks, the checks being done in a relatively easy way, and, when they are done, there being no gap between those checks through which any kind of predatory paedophile could creep.

Janet Ryder: Minister, it is two years after the Clywch report and we are still waiting for the Government to implement some of the major recommendations that Peter Clarke made in that report. They will have an immediate impact on children's safety. The Minister guaranteed that we would have an update on where we are in implementing those, but we still have not had it. When will we at least receive a statement from the Government saying when Peter Clarke's recommendations will be implemented?

The First Minister: I am not familiar with the particular aspects that Peter Clarke highlighted, apart from what is in the Bichard report. As I do not have that information, I will ask Jane Davidson to write to you to make sure that we cover both angles.

sydd wedi mynd drwy'r rhwyd. Yr wyf yn credu bod hynny'n wir ers cryn amser. Yr hyn sy'n bwysig yw bod ysgolion yn sylweddoli bod rhaid iddynt dderbyn cyfrifoldeb, fel cyflogwyr, dros sicrhau eu bod yn gwneud y gwiriadau hynny. Mae hynny'n berthnasol i ysgolion yn y sector preifat, y rhai esgobaethol, y rhai gwirfoddol a gynorthwyr a'r rhai yn y sector gwladol.

Gwenda Thomas: A ydych yn cytuno y bydd y drafodaeth ar y rheoliad i gychwyn adran 175 o Ddeddf Addysg 2002, yn ddiweddarach y prynhawn yma, yn golygu y bydd ein plant yn cael eu hamddiffyn yn well o lawer mewn ysgolion?

Y Prif Weinidog: Yr ydym yn sicr yn disgwyl y bydd awdurdodau addysg lleol, cyrff llywodraethu a sefydliadau addysg bellach yn gwneud trefniadau o dan adran 175 i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Mae'r ymgynghoriad ar y canllawiau statudol sydd yn cyd-fynd â hynny'n tynnu sylw at yr angen i roi polisïau a gweithdrefnau ar waith. Fodd bynnag, maent i gyd wedi eu seilio ar y rhagdybiaeth bod cyflogwyr yn derbyn eu cyfrifoldeb i gwblhau'r gwiriadau, y caiff y gwiriadau eu gwneud mewn modd cymharol rwydd, ac, ar ôl eu gwneud, na fydd dim bwlch rhwng y gwiriadau hynny y gallai unrhyw fath o bedoffil sy'n ceisio manteisio ar rywun sleifio drwyddo.

Janet Ryder: Weinidog, aeth dwy flynedd heibio ers cyhoeddi adroddiad Clywch ac yr ydym yn dal i ddisgwyl i'r Llywodraeth roi ar waith rai o'r argymhellion pwysig a wnaeth Peter Clarke yn yr adroddiad hwnnw. Cânt effaith uniongyrchol ar ddiogelwch plant. Rhoddodd y Gweinidog sicrwydd y caem adroddiad am y datblygiadau diweddaraf o ran eu rhoi ar waith, ond nid ydym wedi ei gael byth. Pa bryd y cawn o leiaf ddatganiad gan y Llywodraeth yn dweud pa bryd y bydd argymhellion Peter Clarke yn cael eu rhoi ar waith?

Y Prif Weinidog: Nid wyf yn gyfarwydd â'r agweddau penodol y tynnodd Peter Clarke sylw atynt ar wahân i'r hyn sydd yn adroddiad Bichard. Gan nad yw'r wybodaeth honno gennyf, gofynnaf i Jane Davidson ysgrifennu atoch i sicrhau ein bod yn ymdrin â'r ddwy agwedd ar hyn.

Datblygu Gwasanaethau Gwledig
The Development of Rural Services

Q9 Elin Jones: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddatblygu gwasanaethau gwledig yng Nghymru? OAQ1195(FM)

Y Prif Weinidog: Mae polisiau a chynlluniau cyllid cysylltiol Llywodraeth y Cynulliad, sy'n mynd law yn llaw â blaenoriaethau strategol 'Cymru: Gwlad Well', yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau lleol ledled Cymru yn cael eu cefnogi.

Elin Jones: Byddwch yn gwybod am gyhoeddiad y Sefydliad Ymchwil Tir Glas a'r Amgylchedd yn Aberystwyth yr wythnos diwethaf y bydd 40 o bobl yn colli'u swyddi oherwydd rhyw £3 miliwn na fydd yn cael ei dderbyn gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar gyfer gwaith ymchwil. Brif Weinidog, chi yw'r Gweinidog sy'n gyfrifol am wyddoniaeth, felly a ydych yn barod i gynnal trafodaethau brys gyda DEFRA i ddiogelu gwaith ymchwil IGER, sef un o'r ychydig sefydliadau ymchwil swyddogol sydd gennym yng Nghymru?

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn cytuno mai hwnnw yw'r unig sefydliad ymchwil sylweddol. Er fy mod yn gyfrifol am y portffolio gwyddoniaeth, nid yw'r portffolio wedi ei ddatganoli. Mae'n bwysig sylweddoli bod y Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a'r Gwyddorau Biolegol wedi penderfynu targedu pethau sy'n cynyddu o ran diddordeb cyhoeddus, er enghraifft cynhesu byd-eang, sy'n golygu llai o flaenoriaeth i gnydau newydd a ffyrdd newydd o ddefnyddio gwair a phorfa o fathau newydd, sef y math o bethau y mae IGER yn arbenigo ynddynt. Mae'n drueni mawr ond, wrth gwrs yr ydym wedi dechrau trafodaethau ar raddfa swyddogion ynglŷn â'r posibilrwydd o aildefnyddio neu ailwampio'r sgiliau sydd gan staff IGER yn y meysydd hollbwysig hyn er, efallai, nad yw'r cyhoedd a'r byd gwleidyddol yn eu hystyried gymaint â chynhesu byd-eang.

Lisa Francis: Ceredigion County Council cabinet members say that they have been left with no choice but to cut services and save money because of pressures from the

Q9 Elin Jones: Will the First Minister make a statement on the development of rural services in Ceredigion? OAQ1195(FM)

The First Minister: The Assembly Government's policies and related funding plans, aligned to the strategic priorities of 'Wales: A Better Country', help ensure support for local services across Wales.

Elin Jones: You will know about last week's announcement by the Institute of Grassland and Environmental Research in Aberystwyth that 40 people will lose their jobs because of some £3 million that will not be received from the Department of the Environment, Food and Rural Affairs for research work. First Minister, you are the Minister with responsibility for science, therefore will you conduct urgent talks with DEFRA to secure IGER's research work, as IGER is one of the few official research institutions that we have in Wales?

The First Minister: I agree that that is the only major research institution. Although I am responsible for the science portfolio, it has not been devolved. It is important to realise that the Biotechnology and Biological Sciences Research Council has decided to target issues that are increasingly in the public eye, for example, global warming, which means less emphasis on new crops and new ways of using new grasses, which is the kind of thing that IGER specialises in. It is a great pity, but, of course, we have started discussions at official level about the possibility of reusing or revamping the skills of IGER's staff in these all-important fields, although, perhaps, the public and the political world do not consider them to be as important as global warming.

Lisa Francis: Mae aelodau cabinet Cyngor Sir Ceredigion yn dweud nad oes dewis ganddynt ond cwtogi gwasanaethau ac arbed arian oherwydd pwysau o du'r Cynulliad.

Assembly. Brynherbert and Ferwig schools may close and others may follow suit. It is proposed that changes will also be made to school transport. What steps will your Government take if the county council decides that it needs to axe more educational facilities in the future to make the books balance?

The First Minister: You have twice, in that question, put an interpretation on matters that I am not sure exists in the minds of Ceredigion county councillors. Are you saying that these changes to the school pattern are caused by budgetary pressures? You said that twice and I am surprised that you did so because, as far as I am aware, Brynherbert school has only three pupils and Ferwig, a school that I know well, has only eight pupils. Therefore, I would have thought that those decisions were taken for educational reasons—there have not been any parental objections, therefore the cases have not come to the Minister for statutory adjudication. It is up to Ceredigion County Council how it decides to spend its money. However, every local authority, to a degree, has to decide on the budget and how we make the best use of it. You cannot therefore say that such and such a rural school has closed because of financial pressures, when it only has three or eight pupils. You said it twice, which probably means that you do not even believe that interpretation yourself.

Mae'n bosibl y bydd ysgolion Brynherbert a'r Ferwig yn cau a gallai eraill wneud yr un fath. Cynigir newidiadau hefyd i gludiant i'r ysgol. Pa gamau y bydd eich Llywodraeth yn eu cymryd os bydd y cyngor sir yn penderfynu bod rhaid iddo gael gwared ar ragor o gyfleusterau addysgol yn y dyfodol er mwyn mantoli'r cyfrifon?

Y Prif Weinidog: Yr ydych wedi dehongli pethau ddwy waith yn y cwestiwn hwnnw mewn modd nad wyf yn sicr a yw'n bod ym meddyliau cynghorwyr sir Ceredigion. A ydych yn dweud bod y newidiadau hyn i batrwm ysgolion yn ganlyniad i bwysau cyllidebol? Dywedasoeh hynny ddwy waith ac yr wyf yn synnu eich bod wedi gwneud hynny oherwydd, hyd y gwn, dim ond tri disgybl sydd yn ysgol Brynherbert ac yn ysgol y Ferwig, sydd yn ysgol yr wyf yn ei hadnabod yn dda, nid oes ond wyth disgybl. Felly, byddwn wedi tybio bod y penderfyniadau hynny wedi eu gwneud am resymau addysgol—ni chafwyd dim gwrthwynebiad gan rieni, felly nid yw'r achosion hyn wedi dod gerbron y Gweinidog ar gyfer dyfarniad statudol. Lle Cyngor Sir Ceredigion yw penderfynu sut y mae'n gwario ei arian. Fodd bynnag, mae pob awdurdod lleol, i ryw raddau, yn gorfod penderfynu ar y gyllideb a sut i wneud y defnydd gorau ohoni. Ni allwch ddweud, felly, fod rhyw ysgol wledig neu'i gilydd wedi cau oherwydd pwysau ariannol, a hithau â dim ond tri neu wyth ddisgybl. Dywedasoeh hynny ddwy waith, ac mae hynny'n dangos nad ydych yn credu'r dehongliad hwnnw eich hun hyd yn oed, yn ôl pob tebyg.

2.40 p.m.

Gweithredu Ymrwymadau Maniffesto The Implementation of Maniffesto Commitments

Q10 Leanne Wood: Will the First Minister give a progress report on the implementation of the Welsh Assembly Government's maniffesto commitments? OAQ1166(FM)

Q10 Leanne Wood: A wnaiff y Prif Weinidog roi adroddiad cynnydd am weithredu ymrwymadau maniffesto Llywodraeth Cynulliad Cymru? OAQ1166(FM)

The First Minister: We continue to make good progress on the introduction of free school breakfasts across 19 local education authorities, and we have initiated a free

Y Prif Weinidog: Yr ydym yn dal i wneud cynnydd da o ran cyflwyno brecwastau am ddim yn yr ysgol mewn 19 o awdurdodau addysg lleol, ac yr ydym wedi sefydlu polisi

prescription policy that will see charges dropped to £3 an item in April 2006, with no charges from April 2007.

Leanne Wood: Returning to the matter of schools, Blaenclydach Infants School will close in July, if the Labour-run Rhondda Cynon Taf council has its way. That is just two months before the children are due to celebrate the school's centenary year. This school has around 90 pupils, it has spent tens of thousands of pounds in recent years and it is a real asset to the community, providing breakfast clubs, after-school clubs, youth clubs, and so on. Why did you not mention your schools closure programme in Labour's last manifesto?

The First Minister: Because we do not have one. That is a bizarre question, Leanne. Perhaps you are taking lessons in how to ask bizarre and irrelevant questions. You have to be aware that the rate of school closures—sometimes small schools, sometimes not so small—has been at roughly the same rate for the past 20 to 30 years. Some school closures have been objected to, as at Blaenclydach, while others have not, such as Ysgol y Ferwig and Brynherbert, as I understand it. The rate is roughly the same. Therefore, it is part of life. You cannot modernise the school estate to achieve delivery of the national curriculum in modern surroundings and say that the pattern of schools that we inherited from the Victorian or Edwardian eras must remain the same half way through the twenty-first century, especially when the number of children is falling. It is not the Assembly Government's fault if the number of children is falling—one thing that I cannot take responsibility for is the Welsh birth rate. The fact is that the number of children is falling, and the number of old schools that we have is much higher than the average. Therefore, when you modernise, you have to make a decision. Do you go for one for two, two for three, or do you modernise all three schools in your area? Those are the considerations that local government has to face up to.

presgripsiynau am ddim a fydd yn peri y bydd taliadau'n gostwng i £3 yr eitem yn Ebrill 2006, ac na fydd dim taliadau o Ebrill 2007.

Leanne Wood: Gan droi'n ôl at fater ysgolion, bydd Ysgol Babanod Blaenclydach yn cau ym mis Gorffennaf, os bydd cyngor Rhondda Cynon Taf, sydd yn cael ei redeg gan Lafur, yn cael ei ffordd. Nid yw hynny ond dau fis cyn bod y plant i fod i ddatlu canmlwyddiant yr ysgol. Mae tua 90 o ddisgyblion yn yr ysgol dan sylw, mae wedi gwario degau o filoedd o bunnoedd yn y blynyddoedd diwethaf ac mae o fudd gwirioneddol i'r gymuned, gan ei bod yn darparu clybiau brechwast, clybiau ar ôl yr ysgol, clybiau ieuenctid, ac yn y blaen. Pam na chyfeiriasoch at eich rhaglen ar gyfer cau ysgolion ym maniffesto diwethaf Llafur?

Y Prif Weinidog: Am nad oes gennym un. Mae hwnnw'n gwestiwn rhyfedd gennyh, Leanne. Efallai'ch bod yn cael gwersi ynghylch sut i ofyn cwestiynau rhyfedd ac amherthnasol. Yr ydych yn sicr o wybod bod y gyfradd ar gyfer cau ysgolion—ysgolion bach weithiau, ac weithiau rhai nad ydynt mor fach—wedi bod yn weddol gyson ers 20 i 30 mlynedd. Cafwyd gwrthwynebiad i'r bwriad i gau rhai ysgolion, megis ym Mlaenclydach, tra na chafwyd gwrthwynebiad mewn achosion eraill, fel Ysgol y Ferwig a Brynherbert, fel yr wyf yn deall. Mae'r gyfradd yr un fath yn fras. Felly, mae'n rhan o'r drefn mewn bywyd. Ni ellir moderneiddio adeiladau ysgolion er mwyn darparu'r cwricwlwm cenedlaethol mewn amgylchoedd modern a dweud wedyn fod rhaid i'r patrwm ysgolion a etifeddasom o oes Fictoria neu Edward barhau hyd ganol yr unfed ganrif ar hugain, yn enwedig o gofio bod nifer y plant yn gostwng. Nid Llywodraeth y Cynulliad sydd ar fai am fod nifer y plant yn gostwng—un peth na allaf dderbyn cyfrifoldeb amdano yw'r gyfradd genedigaethau yng Nghymru. Y gwir amdani yw bod nifer y plant yn gostwng, a bod nifer yr hen ysgolion sydd gennym yn uwch o lawer na'r cyfartaledd. Felly, pan fyddwch yn moderneiddio, rhaid ichi wneud penderfyniad. A ydych yn mynd ati i foderneiddio un ysgol am bob dwy, dwy am bob tair, neu a ydych yn moderneiddio pob un o'r tair ysgol yn eich ardal? Dyna'r

ystyriaethau y mae llywodraeth leol yn gorfod eu hwynebu.

The Leader of the Welsh Conservatives (Nick Bourne): In the foreword to Labour's 2003 Assembly election manifesto, the First Minister spoke of the importance of gaining money over and above the Barnett block in terms of extra funds to exploit the opportunities presented under Objective 1. Is it his intention to go to the Treasury again to ask for money over and above Barnett so that we can do that again in this second round of what is now called convergence funding?

The First Minister: We have done it, because of the point that was in the small print of the budget. The £1.3 billion for the Objective 1 successor programme, or convergence, no longer requires a specific negotiation because the Government has now done what Alun Michael asked for five years ago, and has taken it outside the block. The next big issue for us, therefore, is to negotiate with the EU what the intervention rate will be on Objective 1, and at the same time, negotiate with the UK authorities how much money should come to east Wales under the competitiveness programme. Those are our two priorities. Obviously, the money coming to the Objective 2 east Wales areas will not be anything like as great as that for Objective 1, but that will also be above the Barnett formula following the change made by Gordon Brown in the pre-budget report.

Nick Bourne: I accept the importance of European money for east Wales, but that was not the question. The question was specific, and I did not have a specific answer to it. Will you, in principle, ask the Treasury for money above the Barnett block for match funding in this next round of convergence funding? You do not need to know the intervention rate to make the decision in principle as to whether you will ask for such money.

The First Minister: When you read the Record tomorrow, I think that you will find that you did not actually mention match funding. You were just asking for money

Arweinydd Ceidwadwyr Cymru (Nick Bourne): Yn y rhagair i fanifesto Llafur ar gyfer etholiad y Cynulliad yn 2003, cyfeiriodd y Prif Weinidog at bwysigrwydd sicrhau arian yn ychwanegol at floc Barnett er mwyn cael cyllid ychwanegol i achub ar y cyfleoedd a geir o dan Amcan 1. A yw'n bwriadu mynd at y Trysorlys eto i ofyn am arian yn ychwanegol at floc Barnett fel y gallwn wneud hynny eto yn ail gylch yr hyn a elwir bellach yn gyllid cydgyfeirio?

Y Prif Weinidog: Yr ydym wedi llwyddo, oherwydd y pwynt a oedd ym mhrint mân y gyllideb. Bellach nid oes angen negodi'n benodol ynghylch yr £1.3 biliwn ar gyfer y rhaglen sydd yn olynu Amcan 1, neu'r rhaglen gydgyfeirio, gan fod y Llywodraeth wedi gwneud yr hyn y gofynnodd Alun Michael amdano bum mlynedd yn ôl, ac wedi peri ei fod y tu allan i'r bloc. Y pwnc pwysig nesaf i ni, felly, fydd negodi â'r UE ar y gyfradd ymyrryd ar gyfer Amcan 1 ac, ar yr un pryd, negodi ag awdurdodau'r DU ynghylch pa faint o arian a ddylai ddod i ddwyrain Cymru dan y rhaglen cystadleurwydd. Dyna'r ddwy flaenoriaeth sydd gennym. Wrth gwrs, ni fydd cymaint o arian o bellffordd yn dod i'r ardaloedd Amcan 2 yn y dwyrain â hynny ar gyfer Amcan 1, ond bydd hwnnw hefyd yn ychwanegol at fformiwla Barnett wedi'r newid a wnaed gan Gordon Brown yn yr adroddiad rhag-gyllidebol.

Nick Bourne: Yr wyf yn derbyn bod arian Ewropeaidd ar gyfer dwyrain Cymru'n bwysig, ond nid am hynny yr oedd y cwestiwn. Yr oedd y cwestiwn yn un penodol, ac ni roesoch ateb penodol iddo. A fyddwch, mewn egwyddor, yn gofyn i'r Trysorlys am arian yn ychwanegol at floc Barnett ar gyfer arian cyfatebol yn y cylch nesaf o gyllid cydgyfeirio? Nid oes angen ichi wybod beth yw'r gyfradd ymyrryd er mwyn penderfynu mewn egwyddor a fyddwch yn gofyn am arian o'r fath.

Y Prif Weinidog: Pan ddarllenwch y Cofnod yfory, yr wyf yn credu y gwelwch na soniasoch am arian cyfatebol mewn gwirionedd. Dim ond holi yr oeddech am

above the Barnett formula. The money for east Wales, if we are successful in negotiating an east Wales programme, will be above the Barnett formula because the change made by Gordon Brown covers that area as well. I have said it before, and I say it again, that when we know the intervention rates, when we know whether we have been successful and to what degree vis-à-vis the east Wales programme, which is extremely important, although the money is not as great as it is for west Wales and the Valleys, then we will have some idea of how much match funding there is in the system, and therefore whether there is a case for going to the Treasury. We do not rule anything in or out at this stage.

Nick Bourne: When the First Minister consults the Record he will see that I, quite advisedly, said that I am not asking about east Wales. I am asking about west Wales and the Valleys and the convergence funding. I am asking, not whether you have ruled anything in or out, but whether you will now give a commitment—bearing in mind how you came to power and what happened to your predecessor—to seek match funding money, over and above Barnett, for convergence funding of projects in the second round. We have had resounding silence from you as to whether, in principle, you are prepared to say, ‘Of course, for the sake of Wales, I will do that’. You have not answered that very specific and simple question.

The First Minister: For the sake of Wales, you must understand that the east Wales funding will also be over and above the Barnett formula. You may not be interested in east Wales, but there are, potentially, very big sums at stake here. We want to negotiate and fight for every last penny that we can get for Wales. Following Gordon Brown’s decision, it will be over and above the Barnett formula. You may not be able to appreciate the attractions of doing that, when we know, in advance, that this is going to be over and above the Barnett formula. That is a negotiation that we do not undertake with the EU. We undertake that negotiation with the UK authorities, including the Scottish Executive. It is an extremely important

arian ar ben fformiwla Barnett. Bydd yr arian ar gyfer dwyrain Cymru, os llwyddwn i negodi rhaglen ar gyfer y dwyrain, yn ychwanegol at fformiwla Barnett gan fod y newid a wnaeth Gordon Brown yn cynnwys hynny hefyd. Yr wyf wedi dweud hyn o’r blaen, ac fe’i dywedaf eto, ar ôl cael gwybod beth yw’r cyfraddau ymyrryd, ac a ydym wedi llwyddo ac i ba raddau mewn cysylltiad â’r rhaglen ar gyfer y dwyrain, sydd yn dra phwysig, er nad yw’r arian ar ei chyfer yn gymaint â hynny ar gyfer gorllewin Cymru a’r Cymoedd, y bydd gennym wedi hynny ryw syniad ynghylch faint o arian cyfatebol a fydd ar gael, ac felly a oes dadl dros fynd at y Trysorlys. Nid ydym yn cynnwys nac yn diystyru dim byd ar hyn o bryd.

Nick Bourne: Pan fydd y Prif Weinidog yn edrych ar y Cofnod bydd yn gweld imi ddweud, yn weddol bwylllog, nad holi am ddwyrain Cymru yr wyf. Holi yr wyf am orllewin Cymru a’r Cymoedd a’r cyllid cydgyfeirio. Nid wyf yn gofyn a ydych wedi cynnwys neu ddiystyru unrhyw beth, ond a fyddwch yn awr yn ymrwymo—gan gadw mewn cof sut y daethoch i rym a’r hyn a ddigwyddodd i’ch rhagflaenydd—i geisio cael arian cyfatebol, yn ychwanegol at arian Barnett, ar gyfer cyllid cydgyfeirio i brosiectau yn yr ail rownd. Yr ydym wedi cael tawelwch llethol gennych ynghylch a ydych, mewn egwyddor, yn fodlon dweud, ‘Wrth gwrs, er mwyn Cymru, gwnaf hynny’. Nid ydych wedi ateb y cwestiwn syml a phenodol iawn hwnnw.

Y Prif Weinidog: Er mwyn Cymru, rhaid i chi ddeall y bydd cyllid dwyrain Cymru hefyd yn ychwanegol at fformiwla Barnett. Efallai nad oes gennych ddi-ddordeb yn nwyrain Cymru, ond gall fod symiau mawr yn y fantol yma. Mae arnom eisiau negodi a brwydro dros bob ceiniog y gallwn ei hennill i Gymru. Yn sgîl penderfyniad Gordon Brown, bydd yn ychwanegol at fformiwla Barnett. Efallai nad ydych yn gallu sylweddoli atyniad gwneud hynny, a ninnau’n gwybod, ymlaen llaw, y bydd hyn yn ychwanegol at fformiwla Barnett. Mae hynny’n drafodaeth nad ydym yn ei chynnal gyda’r UE. Yr ydym yn cyd-drafod hynny gydag awdurdodau’r DU, gan gynnwys Gweithrediaeth yr Alban. Mae’n broses

bargaining process, and we will be giving a very high priority to it.

fargeinio bwysig dros ben, a byddwn yn rhoi blaenoriaeth uchel iawn iddi.

Cwestiwn Brys Urgent Question

Colli Swyddi yn Sefydliad Ymchwil Tir Glas a'r Amgylchedd Job Losses at the Institute of Grassland and Environmental Research

Nick Bourne: Will the Minister make a statement about job losses at IGER near Aberystwyth? (EAQ0573)

Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y swyddi sydd i'w colli yn IGER ger Aberystwyth? (EAQ0573)

The Minister for Environment, Planning and Countryside (Carwyn Jones): I have raised with the Department for Environment, Food and Rural Affairs the potential difficulties at IGER, and I have emphasised how important the institute is to science in England and Wales. I have already written to Lord Bach on the matter, and my senior officials are meeting with DEFRA officials on Monday to discuss the matter.

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwald (Carwyn Jones): Yr wyf wedi tynnu sylw Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig at yr anawsterau posibl yn IGER, ac yr wyf wedi pwysleisio pwysigrwydd y sefydliad i wyddoniaeth yng Nghymru a Lloegr. Yr wyf eisoes wedi ysgrifennu at yr Arglwydd Bach ynghylch y mater, ac mae fy uwch swyddogion yn cwrdd â swyddogion DEFRA ddydd Llun i drafod y mater.

Nick Bourne: I am grateful to the Minister for answering the question, and I accept that he has already taken action. Has he had any assurance from DEFRA that it is looking seriously at the cut of £2 million a year in IGER's annual budget of £17 million? It is a massive chunk of the budget, and it represents a reallocation of money to climate change and alternative energy, away from sustainable food and farming.

Nick Bourne: Yr wyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ateb y cwestiwn, ac yr wyf yn derbyn ei fod eisoes wedi cymryd camau. A yw wedi derbyn unrhyw sicrwydd gan DEFRA fod yr adran yn edrych o ddifrif ar y toriad gwerth £2 filiwn y flwyddyn yng nghyllideb flynyddol IGER o £17 miliwn? Mae'n rhan enfawr o'r gyllideb, ac mae'n golygu ailddyrrannu arian at y newid yn yr hinsawdd ac ynni amgen, yn hytrach na ffermio a bwyd cynaliadwy.

The more than 40 jobs that it has been announced will be lost in Aberystwyth are highly paid, specialist jobs. It is clearly a serious blow to the people involved and their families. I extend our sympathy to them. What is the Minister doing to offer assistance to them in finding alternative employment in the agricultural sector, given that these job losses are going to bite, and that there are probably not any obvious suitable jobs around?

Mae'r 40 a mwy o swyddi y cyhoeddwyd y byddant yn cael eu colli yn Aberystwyth yn swyddi arbenigol sydd â thâl uchel. Mae'n amlwg yn ergyd ddifrifol i'r bobl dan sylw a'u teuluoedd. Yr wyf yn anfon ein cydymdeimlad atynt. Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i'w helpu i ddod o hyd i gyflogaeth arall yn y sector amaethyddol, o ystyried y caiff colli'r swyddi hyn gryn effaith, ac mae'n debyg nad oes dim swyddi addas amlwg ar gael?

My second question relates to DEFRA, in this instance, failing to support sustainable food and farming. It is a serious blow to Wales and the whole of the United Kingdom. Is the Minister making that point forcibly? Will that be addressed, and will the Minister

Mae fy ail gwestiwn yn ymwneud â DEFRA, y tro hwn, yn methu â chefnogi ffermio a bwyd cynaliadwy. Mae'n ergyd ddifrifol i Gymru a'r Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd. A yw'r Gweinidog yn cyfleu'r pwynt hwnnw'n gryf? A roddir sylw i hynny,

come back to the Assembly as negotiations go on with DEFRA to make an announcement about that? There is concern about the loss of these specialist jobs; they are clearly important in this area, as there is a long way to the next town from Aberystwyth. However, quite apart from that, there is a serious agricultural interest and a serious research aspect to this, and this switch of funding to climate change and alternative energy—and I am not speaking against that, but in favour of sustainable food and farming—is a blow, I would have thought, to the Minister's agenda and the Assembly's agenda. That cannot be given enough emphasis in the discussions that you are having with DEFRA.

Carwyn Jones: The immediate priority is to try to find a solution to the shortfall. If that solution is not found, it is right to say that there is a likelihood of job losses. It is not pleasant for those involved to have that hanging over their heads, and that must be accepted. However, the first step is to deal with the issue of the shortfall. I wrote to Lord Bach on 30 January. It was a full letter, which I have in front of me, that emphasised the concerns that we have as a Government. It emphasises the need for an institution such as IGER to be able to deliver on the Welsh Assembly Government's research priorities and its wider strategic objectives. I will keep the committee informed on progress, and, as I mentioned earlier, officials are meeting with DEFRA on Monday to discuss this.

Elin Jones: Diolch, Weinidog, am ateb y cwestiwn brys hwn. Yr oedd newyddion yr wythnos diwethaf yn dipyn o sioc i weithwyr IGER, gan nad oedd y rhan fwyaf ohonynt wedi rhagweld y math hwn o gyhoeddiad. Siaradais â'r Athro Pollock, pennaeth IGER, ddoe. Mae agweddau pwysig ar waith IGER yn cael eu colli oherwydd y toriadau ariannol hyn o gyfeiriad DEFRA.

2.50 p.m.

Gwyddom mai diffyg ariannu DEFRA sy'n gyfrifol am hyn ac, yng Ngheredigion, yr ydym wedi dod yn weddol gyfarwydd, yn anffodus, gydag adrannau o Lywodraeth San Steffan yn tynnu buddsoddiad yn ôl—mae'r

ac a wnaiff y Gweinidog ddod yn ôl at y Cynulliad wrth i'r trafodaethau fynd rhagddynt gyda DEFRA i wneud cyhoeddiad ynghylch hynny? Mae pryder ynghylch colli'r swyddi arbenigol hyn; yn amlwg maent yn bwysig yn yr ardal hon, gan fod y dref nesaf gryn bellter o Aberystwyth. Fodd bynnag, ar wahân i hynny, mae buddiannau amaethyddol pwysig yn gysylltiedig â hyn ac agwedd o bwys o safbwynt ymchwil, ac mae symud y cyllid hwn at y newid yn yr hinsawdd ac ynni amgen—ac nid wyf yn siarad yn erbyn hynny, ond o blaid ffermio a bwyd cynaliadwy—yn ergyd, byddwn yn tybio, i agenda'r Gweinidog ac agenda'r Cynulliad. Ni ellir gorbwysleisio hynny yn y trafodaethau a gewch gyda DEFRA.

Carwyn Jones: Y flaenoriaeth yn awr yw ceisio dod o hyd i ateb ar gyfer y diffyg. Oni ellir dod o hyd i'r ateb hwnnw, mae'n iawn dweud ei bod yn debygol y collir swyddi. Mae'n annifyr i'r rhai sydd dan y cwmwl hwn, a rhaid derbyn hynny. Fodd bynnag, y cam cyntaf yw delio â phroblem y diffyg. Ysgrifennais at yr Arglwydd Bach ar 30 Ionawr. Yr oedd yn llythyr llawn, ac mae o fy mlaen yn awr, a oedd yn pwysleisio'r pryderon sydd gennym fel Llywodraeth. Yr oedd yn pwysleisio bod angen i sefydliad fel IGER allu gwireddu blaenoriaethau ymchwil Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i hamcanion strategol ehangach. Byddaf yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor, ac, fel y dywedais yn gynharach, bydd y swyddogion yn cwrdd â DEFRA ddydd Llun i drafod hyn.

Elin Jones: Thank you, Minister, for responding to the urgent question. Last week's news came as quite a shock to IGER workers, as most of them had not foreseen such an announcement. I spoke to Professor Pollock, the head of IGER, yesterday. Important aspects of the work of IGER will be lost because of these financial cuts from DEFRA.

We know that it is the cut in DEFRA funding which is responsible, and, in Ceredigion, unfortunately, we have become relatively familiar with Westminster Government departments withdrawing investment—the

I want to know how much is spent on advertising jobs in the *Western Mail*—I think that we have had some figures in reports to

cyrraedd yma, a bellach mae tua 7,000 o bobl yn perthyn i gymuned Somali Cymru. Mae pob arolwg yn dangos bod y gymuned yn dal i deimlo'n ynysig. Dangosodd arolwg diweddar o'r gymuned Somali yng Nghasnewydd fod difaterwch gwleidyddol mawr—nid oedd 55 y cant o'r rhai a holwyd, ac a oedd yn gymwys i bleidleisio, erioed wedi pleidleisio. Pa syndod, felly, o weld cyn lleied o aelodau o'r gymuned Somali'n gweithio yma yn yr adeilad hwn neu ym mharc Cathays, er enghraifft? Heb fodelau rôl, sut y gallwn ddisgwyl i'r gymuned honno ymgeisio am y swyddi yn y lle cyntaf, neu hyd yn oed ddilyn pleidiau gwleidyddol? Mae hynny'n wers y mae gofyn i bawb ohonom ei dysgu.

Mae hynny'n arwain at yr ail bwynt sydd gennyf ynglŷn â chael gwybodaeth, ac ynglŷn â chyfleoedd yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Mater arall a godir yn fynych yn y pwyllgor yw hysbysebu swyddi Llywodraeth Cynulliad Cymru neu Wasanaeth Seneddol y Cynulliad. Mae Aelodau eraill wedi codi'r pwynt hwn. Fodd bynnag, mae'n rhaid gofyn pam yr ydym yn dal i wario degau o filoedd o bunnoedd yn hysbysebu yn yr un papur hwnnw y cyfeiriodd Jenny Randerson ato. Er ei fod yn honni bod iddo statws fel papur cenedlaethol Cymru, nid yw'n cyrraedd pob rhan o Gymru am nifer o resymau. Yn sicr ddigon nid yw'n cyrraedd cymunedau'r bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn fy etholaeth i. Faint yr ydym yn ei wario ar hysbysebu?

Jonathan Morgan: Diolch i chi am ildio. Cytunaf yn llwyr nad yw'r modd yr ydym yn hysbysebu swyddi yng Nghymru'n cyrraedd pob rhan o Gymru, a'r tristwch yw nad oes gennym rwydwaith papurau newydd sy'n haeddu'r teitl papur cenedlaethol. Deallaf mai tua 40,000 o gopïau yw cylchrediad y *Western Mail*, a thylbiaf mai pobl fel ni sy'n ei ddarllen gan mwyaf.

Lorraine Barrett: Byddaf yn darllen y *Western Mail* weithiau, ond yr wyf yn derbyn eich pwynt, Jonathan.

Hoffwn wybod faint sy'n cael ei wario ar hysbysebu swyddi yn y *Western Mail*—credaf inni gael rhai ffigurau mewn

the Committee on Equality of Opportunity—and how many people from black minority ethnic communities have applied and been successful in gaining employment since 1999. I am willing to be proved wrong, but I suspect that very few applications have been made, particularly from my constituents.

However, one thing that continues to impress me is the way in which the National Assembly for Wales attempts to reach out to communities. I have been to some of the regional information team sessions in supermarkets and leisure centres throughout my constituency, and the staff from the Assembly Parliamentary Service, who are there to tell people about how the Assembly works, are very enthusiastic. I wonder whether it would be possible for any job applications, or opportunities for work in the Assembly, to be included in the information packs that are made available on the stands when the regional information staff go out to our various communities. I think that they go all over Wales. People would be far more willing to engage in the work of the Assembly if the outreach work was targeted specifically to illustrate what the employment opportunities might be here.

Finally, I welcome this report. We have done a lot of good work, but the main message from all of us is that there is still a lot to do.

Helen Mary Jones: I find myself in some difficulty with regard to the structure of this debate. In deference to the convention to which the Chair referred in introducing the debate, we chose not to table amendments, but I have a great deal of sympathy with the points that have been made by the Conservative Party and the Liberal Democrats about the actions that need to be taken. It seems to be that it is the hybrid nature of this report that is a problem, and I suggest that, for future years, we have a separate report on the committee's activities, a separate report on the work of APS, which could perhaps be scrutinised through the House Committee, and a separate report, with a full debate, on the Government's equality agenda, because we ought to be able to amend that.

adroddiadau i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal—a faint o bobl o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig sydd wedi ymgeisio a llwyddo i gael gwaith ers 1999. Yr wyf yn fodlon cael fy ngwrthbrofi ond tybiaf mai prin iawn yw'r ceisiadau, yn enwedig o du fy etholwyr i.

Fodd bynnag, un peth sy'n dal i wneud argraff arnaf yw'r modd y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n ceisio estyn allan at gymunedau. Bûm yn rhai o sesiynau'r tîm gwybodaeth rhanbarthol mewn archfarchnadoedd a chanolfannau hamdden yn fy etholaeth, ac mae staff Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad, sydd yno i ddweud wrth bobl sut y mae'r Cynulliad yn gweithio, yn frwdfrydig iawn. Tybed a fyddai modd rhoi hysbysebion swyddi, neu gyfleoedd gwaith yn y Cynulliad, yn y pecynnau gwybodaeth sydd ar gael ar y stondinau pan fydd y staff gwybodaeth rhanbarthol yn mynd i'r gwahanol gymunedau? Credaf eu bod yn mynd i bob cwr o Gymru. Byddai pobl yn llawer mwy parod i ymwneud â gwaith y Cynulliad petai'r gwaith estyn allan wedi ei dargedu'n benodol i ddarlunio'r cyfleoedd gwaith a allai fod ar gael yma.

Yn olaf, croesawaf yr adroddiad hwn. Yr ydym wedi gwneud llawer o waith da, ond y brif neges oddi wrthym ni oll yw bod llawer o waith i'w wneud eto.

Helen Mary Jones: Yr wyf yn cael rhywfaint o drafferth o ran strwythur y ddadl hon. O barch at y confensiwn y cyfeiriodd y Cadeirydd ato wrth gyflwyno'r ddadl, dewisasom beidio â chyflwyno gwelliannau, ond mae gennyf lawer iawn o gydymdeimlad â'r pwyntiau a wnaethpwyd gan y Blaid Geidwadol a'r Democratiaid Rhyddfrydol ynglŷn â'r camau y mae angen eu cymryd. Ymddengys mai natur gymysg yr adroddiad hwn yw'r broblem, ac awgrymaf, at y dyfodol, y dylem gael adroddiad ar wahân ynghylch gweithgareddau'r pwyllgor, adroddiad ar wahân ynghylch gwaith Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad, y gallai Pwyllgor y Tŷ graffu arno o bosib, ac adroddiad ar wahân, gyda dadl lawn, ar agenda cydraddoldeb y Llywodraeth, oherwydd dylem allu cynnig gwelliannau i honno.

I associate myself with the concerns that have already been raised by all other speakers, and particularly by my colleagues in opposition. It is only fair to say that the report, particularly the Government's report, has improved year on year. It has been like pulling teeth—and I am sure that Lorraine Barrett would agree with me on that, as would the Minister, frankly—but there has been real progress. However, I will make some further comments in addition to what has already been said about the nature of the Government's report.

I am still concerned to see that there are very variable responses from different departments, and we must ask how consistent the Minister's priorities are with those of each particular Minister. I suspect that I can see the attitudes and concerns of each individual Minister when I look at the quantity of information that has come from his or her department. We still need to look for consistency.

The Chair was quite right to mention the problem of measuring outputs not outcomes. After six years, I am, quite frankly, beginning to lose interest in what is being done; I want to know what difference is being made. I think that the Minister has acknowledged that in committee, so we need to look at that. It does not matter what we do unless it makes a difference. As I am sure the Minister will acknowledge, we still, for example, have a great deal of difficulty in tracing spending on equality issues in different divisions, and some do not seem to have made any effort to do so.

With regard to the Government side of the report, I want to hear from the Minister today how the Government proposes Welsh language issues to be represented in the equality agenda, and on our committee once the Welsh Language Board has been brought in-house. I hope very much that it will be represented through the offices of a strong language commissioner for Wales, but we do not yet have the Government's response to that.

Yr wyf yn cyd-fynd â'r pryderon a godwyd eisoes gan bob un o'r siaradwyr eraill, ac yn enwedig gan fy nghyd-Aelodau yn y gwrthbleidiau. Teg yw dweud bod yr adroddiad, yn enwedig adroddiad y Llywodraeth, wedi gwella o'r naill flwyddyn i'r llall. Mae wedi bod yn debyg i dynnu dannedd—ac yr wyf yn siŵr y cytunai Lorraine Barrett â mi yn hynny o beth, fel y byddai'r Gweinidog, a bod yn onest—ond cafwyd cynnydd gwirioneddol. Fodd bynnag, yr wyf am gyflwyno rhagor o sylwadau yn ychwanegol at yr hyn a ddywedwyd eisoes ynglŷn â natur adroddiad y Llywodraeth.

Pryderaf o hyd o weld bod atebion amrywiol iawn gan wahanol adrannau, ac mae'n rhaid gofyn pa mor gyson yw blaenoriaethau'r Gweinidog â rhai pob Gweinidog unigol. Tybiaf y gallaf weld agweddau a diddordebau pob Gweinidog unigol pan edrychaf ar faint o wybodaeth a ddaeth o'i adran ef neu ei hadran hi. Mae'n rhaid inni geisio cael cysondeb o hyd.

Yr oedd y Cadeirydd yn llygad ei lle pan soniodd am broblem mesur allbynnau yn lle canlyniadau. Wedi chwe blynedd, a bod yn onest, yr wyf yn dechrau colli diddordeb yn yr hyn sy'n cael ei wneud; hoffwn wybod pa wahaniaeth sy'n cael ei wneud. Credaf i'r Gweinidog gydnabod hynny yn y pwyllgor, felly mae angen inni edrych ar hynny. Nid yw o bwys pa beth a wnawn oni bai ei fod yn gwneud gwahaniaeth. Yr wyf yn siŵr y bydd y Gweinidog yn cydnabod, er enghraifft, ein bod yn ei chael yn anodd iawn o hyd olrhain gwariant ar faterion cydraddoldeb mewn gwahanol is-adrannau, ac ymddengys nad yw rhai wedi gwneud dim ymdrech i wneud hynny.

Ynghylch ochr y Llywodraeth i'r adroddiad, yr wyf am glywed gan y Gweinidog heddiw sut y mae'r Llywodraeth yn bwriadu ymdrin â materion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg yn yr agenda ar gydraddoldeb, ac yn ein pwyllgor wedi i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ddod yn rhan o'r Llywodraeth. Yn wyf yn gobeithio'n wir y caiff ei chynrychioli drwy gyfrwng comisiynydd iaith cryf dros Gymru, ond nid yw'r Llywodraeth wedi ymateb i hynny eto.

With regard to the parliamentary side—and I take Lorraine Barrett's point about how this may be responded to at another time and in another place—I am still not sure about the extent to which equality is being mainstreamed. There have been some very positive, specific actions. There is, as has already been said, a lot to do on recruitment, and, of course, there are no presents for children in this place.

4.30 p.m.

The lack of childcare in the Assembly is becoming a national embarrassment. We are a very poor example to employers across Wales. When I speak in my region to employers about what I expect them to do to support the families that are working for them, I get a quizzical raising of the eyebrow, and a 'Well, they have got childcare in the Scottish Parliament, why haven't you?'. We need to do something about this. I felt constrained about speaking out when my child was small and could have taken advantage of that. She is much too old for a crèche now, so it is gloves off.

On both sides, we need to examine how mainstreaming is operating and we need to look at the consequences that there should be for Ministers and for senior civil servants if the mainstreaming agenda is not delivered. The Government Ministers on their side have to take responsibility.

As we look towards the future, the Assembly is facing major changes, which will be welcome to many of us. However, we must not lose the gains that we have made as we move towards becoming a full legislative body. We will need to ensure much more effective scrutiny on equality, and not just by the Committee on Equality of Opportunity. It is going to be more of a challenge when we are scrutinising legislation and we will all have to prepare for that.

In addition, there are our working practices; we all acknowledge that we will need to sit longer, but I will fight tooth and nail to ensure that we continue to sit in professional hours. The National Assembly advisory

O ran yr ochr seneddol—a derbyniaf bwynt Lorraine Barrett ynghylch sut y gellid ymateb i hyn ryw dro arall mewn lle arall—yr wyf yn dal yn ansicr i ba raddau y mae cydraddoldeb yn cael ei brif ffrydio. Cafwyd rhai camau penodol, cadarnhaol iawn. Mae llawer i'w wneud o ran recriwtio, fel y dywedwyd eisoes, ac, wrth gwrs, nid yw plant yn cael anrhegion yn y lle hwn.

Mae diffyg gofal plant yn y Cynulliad yn prysur ddod yn gywilydd cenedlaethol. Yr ydym yn esiampl wael iawn i gyflogwyr ledled Cymru. Pan fyddaf yn siarad yn fy rhanbarth â chyflogwyr am yr hyn y disgwyliaf iddynt ei wneud i gynorthwyo'r teuluoedd sy'n gweithio iddynt, codi eu haeliau a wnânt, a holi 'Wel, mae gofal plant yn Senedd yr Alban, pam nad yw'r un peth gennych chi?'. Rhaid inni wneud rhywbeth ynghylch hyn. Pan oedd fy mhlentyn yn fach ac wedi gallu elwa o hynny, teimlwn na ddylwn godi fy llais. Mae'n rhy hen o lawer i fynd i feithrinfa bellach, felly gallaf siarad yn blaen.

Mae angen inni, ar y ddwy ochr, weld sut y mae prif ffrydio yn digwydd, a rhaid inni edrych ar y canlyniadau a ddylai ddeillio o hynny i Weinidogion ac uwch-weision sifil oni chyflwynir yr agenda ar brif ffrydio. O'u hochr hwy, rhaid i Weinidogion y Llywodraeth gymryd y cyfrifoldeb.

Wrth inni edrych tua'r dyfodol, mae'r Cynulliad yn wynebu newidiadau mawr, y bydd llawer ohonom yn eu croesawu. Fodd bynnag, rhaid inni osgoi colli'r gwelliannau yr ydym wedi eu sicrhau wrth inni symud tuag at ddod yn gorff deddfwriaethol llawn. Bydd gofyn inni sicrhau bod craffu llawer mwy effeithiol ar bwnc cydraddoldeb, ac nid gan y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn unig. Bydd yn fwy o her pan fyddwn yn craffu ar ddeddfwriaeth a rhaid inni oll baratoi ar gyfer hynny.

Yn ogystal, mae ein harferion gweithio; yr ydym oll yn cydnabod y bydd yn rhaid inni eistedd am gyfnodau hwy, ond ymladdaf hyd yr eithaf i ofalu y byddwn yn dal i eistedd yn ystod oriau proffesiynol. Ymgynghorodd

group consulted widely about this, and the people of Wales were clear that they wanted full-time Assembly Members who went to work in the morning and stopped work in the evening. We have to consider the effects of any potential changes on staff. There may be some voices in the Assembly who think that proper parliamentary practice is synonymous with some of the bad, old gentlemen's club ways of Westminster. They can rest assured that there are enough of us here to ensure that our new legislative Assembly does not throw out the equality baby with the weak powers bathwater.

Finally, I want to cite one dreadful public example of just how far we have to go. I do not know how many of you read our so-called national newspaper on Friday, but I was appalled and horrified—

The Deputy Presiding Officer: Order. You will notice that you are running out of time.

Helen Mary Jones: Very briefly, then, I was appalled and horrified by an article that said,

'Personally, I have to say that I don't think gay men make good party leaders or Prime Ministers'.

and

'Their lifestyles are too divorced from the norm'.

This kind of attitude is what we have to fight against, and this is why the Assembly must keep equality right at the top of our agenda.

Laura Anne Jones: We should all see today's report as a great opportunity to take stock of how we have progressed with the equality agenda in the Assembly. We can all congratulate ourselves in the committee, as can the Government and the Assembly, on doing a great deal, but there is still a lot more to be done. That is widely recognised by people in my area and by everyone in Wales. It is also recognised by Jon Shortridge. He recognises that there is still a lot to be done,

grŵp ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol yn eang ar hyn, ac yr oedd pobl Cymru yn glir bod arnynt eisiau Aelodau Cynulliad llawnamser a oedd yn mynd i'r gwaith yn y bore ac yn gorffen gweithio gyda'r nos. Bydd yn rhaid inni ystyried effeithiau unrhyw newidiadau posibl ar y staff. Efallai fod rhai lleisiau yn y Cynulliad sy'n tybio bod arferion seneddol priodol yn gyfystyr â rhai o hen arferion drwg y clwb bonheddwyr yn San Steffan. Gallant fod yn dawel eu meddwl fod digon ohonom yma i sicrhau na fydd ein Cynulliad deddfwriaethol newydd yn cael gwared ag egwyddor cydraddoldeb ar yr un pryd â phwerau gwan.

Yn olaf, carwn ddyfynnu un esiampl gyhoeddus arswydus o'r ffordd bell sydd gennym eto i deithio. Ni wn faint ohonoch a ddarllenodd ein papur cenedlaethol bondigrybwyll ddydd Gwener, ond dychrynais a ffeiddio—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Sylwch fod eich amser yn dod i ben.

Helen Mary Jones: Yn fyr iawn, felly, dychrynais a ffeiddio wrth ddarllen erthygl a ddywedai,

Yn bersonol, rhaid i mi ddweud nad yw dynion hoyw, yn fy marn i, yn gwneud arweinyr pleidiau na Phrif Weinidogion da.

a

Mae eu dulliau o fyw yn rhy wahanol i'r norm.

Dyma'r math o agwedd y mae'n rhaid i ni ei gwrthweithio, a dyna pam mae'n rhaid i'r Cynulliad gadw cydraddoldeb ar frig ein hagenda.

Laura Anne Jones: Dylem oll weld adroddiad heddiw fel cyfle gwych i fesur faint o gynnydd yr ydym wedi'i wneud gyda'r agenda ar gydraddoldeb yn y Cynulliad. Mae lle inni oll longyfarch ein hunain yn y pwyllgor; felly hefyd y Llywodraeth a'r Cynulliad, am wneud llawer, ond erys llawer mwy i'w wneud. Mae pobl ledled fy ardal yn cydnabod hyn, fel y mae pawb yng Nghymru. Mae'n cael ei gydnabod hefyd gan Jon Shortridge. Mae ef yn

as has been said, in terms of advertising, recruitment and committee work.

Picking up quickly on what Helen Mary said about the Scottish Parliament, I understand what she said about childcare facilities and how important it is for equality of opportunity to have that here in our workplace and to set an example. However, the Scottish Parliament, I understand, has those childcare facilities for visitors, not for its employees or the Members of the Scottish Parliament. Therefore, it still has a long way to go, as well, I think.

We should also perhaps go back, as Lorraine Barrett said, to our communities and ask them what they think the way forward is. This obviously affects them, and in terms of how best to reach them, it may be something that we should ask them: what do they do, what papers do they read, where do they go to search for jobs?

I welcome the work that we have already done in the committee in the field of equality of opportunity and I agree with everything that has been said on this side of the Chamber, and I thank the Assembly for what it has done so far. As a committee, we have highlighted many issues to be tackled, but now is the time to act on them, and to put it in simple terms for people out there to understand, as well as us, and so that we can work on clear, concise action points to further equality of opportunity. Many times in the Committee on Equality of Opportunity, we have noted that Ministers and other committees have not recognised the importance of equality of opportunity and have sidelined the issue. It is seen as an add-on policy in those committees, rather than part of the core policy, which is a failure, really, across the board. It is not just certain committees, although it is true that some are better than others. It is for us all, as Assembly Members, to recognise on a daily basis that we must ensure that equality of opportunity is integral to everything that we do.

The Business Minister (Jane Hutt): I welcome the opportunity to speak in this debate, conscious of the challenges that were set for me as I took on ministerial responsibility for the Assembly

cydnabod bod llawer eto i'w wneud, fel y dywedwyd, o ran hysbysebu, recriwtio a gwaith pwyllgor.

A chyfeirio'n sydyn ar yr hyn a ddywedodd Helen Mary am Senedd yr Alban, yr wyf yn deall yr hyn a ddywedodd am gyfleusterau gofal plant a pha mor bwysig o ran cyfle cyfartal yw inni ei gael yma yn ein man gwaith ni, a rhoi esiampl. Fodd bynnag, yn ôl a ddeallaf, ar gyfer ymwelwyr y mae'r cyfleusterau gofal plant hynny yn Senedd yr Alban, nid ar gyfer ei gweithwyr nac Aelodau Senedd yr Alban. Felly mae ganddi hithau ffordd bell i deithio hefyd, yn fy marn i.

Efallai y dylem fynd yn ôl hefyd, fel y dywedodd Lorraine Barret, i'n cymunedau a gofyn iddynt am eu barn am y ffordd ymlaen. Mae hyn yn amlwg yn effeithio arnynt, ac o ran y ffordd orau i'w cyrraedd, efallai y dylem ofyn iddynt: beth y maent hwy'n ei wneud, pa bapurau y maent yn eu darllen, i ble y maent yn mynd i chwilio am swyddi?

Croesawaf y gwaith a wnaethom eisoes ym maes cyfle cyfartal, a chytunaf â phopeth a ddywedwyd ar yr ochr hon i'r Siambr, gan ddiolch i'r Cynulliad am yr hyn a wnaeth hyd yma. Fel pwyllgor, yr ydym wedi tynnu sylw at lawer o bynciau i fynd i'r afael â hwy, ond bellach mae'n amser gweithredu arnynt, a'i gyfleu mewn iaith syml er mwyn i bobl ei ddeall, yn ogystal â ninnau, fel y gallwn weithio ar bwyntiau gweithredu clir a chryno er mwyn hyrwyddo cyfle cyfartal. Lawer gwaith yn y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, yr ydym wedi nodi bod Gweinidogion a phwyllgorau eraill heb gydnabod pwysigrwydd cyfle cyfartal a'u bod yn gwrthio'r pwnc i'r ymylon. Mae'n cael ei weld fel polisi ychwanegol yn y pwyllgorau hynny, yn hytrach na rhan o'r polisi craidd, ac mae hyn mewn gwirionedd yn fethiant cyffredinol. Nid mewn rhai pwyllgorau yn unig y mae'n digwydd, er ei bod yn wir dweud bod rhai'n well na'i gilydd. Mae'n fater inni oll, fel Aelodau o'r Cynulliad, gydnabod yn ddyddiol fod rhaid inni sicrhau bod cyfle cyfartal yn rhan annatod o bopeth a wnawn.

Y Trefnydd (Jane Hutt): Yr wyf yn croesawu'r cyfle i siarad yn y ddadl hon, gan fy mod yn ymwybodol o'r heriau a osodwyd imi wrth imi gymryd cyfrifoldebau gweinidogol dros bolisiau cydraddoldeb

Government's equality policies last year. I thank Gwenda Thomas, the Chair of the Committee on Equality of Opportunity, for her leadership and inclusive approach, which is evidenced in the committee's report and deliberations.

Equality remains at the heart of Assembly Government policy making. Laura Anne, it is key that we recognise the development of a distinctive equality agenda in Wales because of our statutory duties to promote equality. This will be further reflected in the new Government of Wales Bill, ensuring that there is a duty on Ministers to deliver their responsibilities and a parallel duty on the legislature with regard to the conduct of business and proceedings.

Moving forward from last year, I am glad that there is recognition that the Assembly Government's annual report offers a new style, building significantly on last year's report. This reflects a real change in how we are conducting our business in relation to equality. Again, Laura Anne, this is not seen as an add-on or a final thought in the policy-making process. It is important that we recognise that, during 2005, I established the mainstreaming task and finish group in response to the Committee on Equality of Opportunity's 'Report on Mainstreaming Equality in the Work of the National Assembly'.

Mainstreaming must start in the Assembly and, for the Government, this has included establishing new equality champions in each Assembly department, ensuring an internal equality network throughout the organisation. Mark and Helen Mary, we want to ensure that this report is more outcome based—as you said, it is about what you deliver. We have done a great deal to not just list activities, but to assess impact. The way in which we approached the annual report was to ask each department to identify its top five objectives, stating how equality was built in, and asking it to identify any positive equality outcomes. There are specific policy and business functions relating to equality, case studies with individual success stories, and areas of good practice in promoting equality

Llywodraeth y Cynulliad y llynedd. Carwn ddiolch i Gwenda Thomas, Cadeirydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, am ei harweiniad a'i hagwedd gynhwysol, sydd yn amlwg yn adroddiad a thrafodaethau'r pwyllgor.

Erys cydraddoldeb wrth graidd y broses o lunio polisiau Llywodraeth y Cynulliad. Laura Anne, mae'n allweddol ein bod yn cydnabod datblygiad agenda gydraddoldeb unigryw yng Nghymru oherwydd ein dyletswyddau statudol i hybu cydraddoldeb. Adlewyrchir hyn ymhellach ym Mesur newydd Llywodraeth Cymru, gan sicrhau y bydd dyletswydd ar Weinidogion gyflawni eu cyfrifoldebau, a dyletswydd hefyd ar y ddeddfwrfa o ran cynnal busnes a thrafodion.

A symud ymlaen o'r llynedd, yr wyf yn falch o'r gydnabyddiaeth bod adroddiad blynyddol Llywodraeth y Cynulliad yn cynnig arddull newydd, gan adeiladu'n sylweddol ar adroddiad y llynedd. Mae hyn yn adlewyrchu newid gwirioneddol yn y ffordd yr ydym yn cynnal ein busnes o ran cydraddoldeb. Unwaith eto, Laura Anne, nid yw hyn yn cael ei weld fel rhywbeth ychwanegol na rhywbeth a ddaeth ar gynffon y broses o lunio polisiau. Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod fy mod, yn ystod 2005, wedi sefydlu'r grŵp gorchwyl a gorffen ar brif ffrydio fel ymateb i'r 'Adroddiad ar Brif ffrydio Cydraddoldeb yng Ngwaith y Cynulliad Cenedlaethol' gan y Pwyllgor Cyfle Cyfartal.

Rhaid i brif ffrydio ddechrau yn y Cynulliad, ac o ran y Llywodraeth, mae hyn wedi golygu sefydlu hyrwyddwyr cydraddoldeb newydd ym mhob adran o'r Cynulliad, a fydd yn sicrhau rhwydwaith cydraddoldeb mewnol ledled y sefydliad. Mark a Helen Mary, yr ydym am sicrhau bod yr adroddiad hwn yn fwy seiliedig ar ganlyniadau—fel y dywedaso, mae'n ymwneud â'r hyn yr ydych yn ei gyflawni. Gwnaethom lawer iawn, nid yn unig i restru gweithgareddau, ond asesu'r effeithiau. Aethom ati i lunio'r adroddiad blynyddol drwy ofyn i bob adran nodi ei phum prif amcan, gan ddatgan sut yr oedd cydraddoldeb wedi ei gynnwys yn rhan o hynny, a gofyn iddynt nodi unrhyw ganlyniadau cadarnhaol o ran cydraddoldeb. Mae swyddogaethau penodol o ran polisi a

of opportunity. We can see some of those key achievements in promoting equality, as well as the progressing of our vision in 'Wales: A Better Country', during 2004-05.

I will mention only a few significant developments. The Genesis Wales project is providing a package of advice, guidance, support and childcare using European structural funds, and has been a key step forward in addressing barriers. The Cyfenter Development Partnership is promoting new ways of tackling all forms of discrimination and inequalities in the labour market. The British Sign Language project is aiming to increase the number of sign language interpreters in Wales, and there is the health programme. In education, we have seen work on gender stereotyping in modern apprenticeships and Stonewall Cymru has launched an 'Education for All' campaign.

We are doing a lot to promote equality, but I recognise the challenges that have been mentioned in this debate and during scrutiny in committee. It is important that we look at our own workforce, as we have done this afternoon. We have to be a model for good practice in promoting equality and diversity. If we are to have equality and diversity in service delivery, we must ensure that our workforce reflects the people whom we serve.

There have been many achievements in taking this forward. The Permanent Secretary's report identifies some of these: the launch of our internal race equality scheme, which set its own challenges; our graduate fast-track recruitment for under-represented groups, which brought many people into the Assembly; recognition by Race for Opportunity that we are one of the top 10 most improved UK employers on diversity and equality issues; and our scoring consistently higher than other public sector organisations in the employers' forum. However, of course, it is about the next steps and the report highlights examples of good

busnes yn ymwneud â chydaddoldeb, astudiaethau achos gyda hanesion am lwyddiannau unigol, a meysydd lle y ceir arferion da o ran hybu cyfle cyfartal. Gallwn weld rhai o'r llwyddiannau allweddol hynny ym maes hybu cydraddoldeb, yn ogystal â hyrwyddo ein gweledigaeth yn 'Cymru: Gwlad Well', yn ystod 2004-05.

Soniaf am rai datblygiadau arwyddocaol yn unig. Mae prosiect Genesis Cymru yn darparu pecyn o gyngor, cyfarwyddyd, cymorth a gofal plant gan ddefnyddio cronfeydd strwythurol Ewrop, a bu'n gam allweddol ymlaen i oresgyn rhwystrau. Mae Partneriaeth Ddatblygu Cyfenter yn hybu ffyrdd newydd o fynd i'r afael â phob math o wahaniaethu ac anghydaddoldebau yn y farchnad lafur. Nod y prosiect Iaith Arwyddion Prydain yw cynyddu nifer y lladmeryddion iaith arwyddion yng Nghymru, ac mae rhaglen iechyd. Mewn addysg, gwelsom waith ar stereoteipio o ran rhyw mewn prentisiaethau modern, ac mae Stonewall Cymru wedi lansio ymgyrch 'Addysg i Bawb'.

Yr ydym yn gwneud llawer i hybu cydraddoldeb, ond yr wyf yn cydnabod yr heriau y soniwyd amdanynt yn y ddadl hon ac yn ystod y craffu yn y pwyllgor. Mae'n bwysig ein bod yn edrych ar ein gweithlu ein hunain, fel yr ydym wedi gwneud y prynhawn yma. Rhaid inni fod yn esiampl o arferion da o ran hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth. Os am gael cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth gyflwyno gwasanaethau, rhaid inni ofalu bod ein gweithlu yn adlewyrchu'r bobl yr ydym yn eu gwasanaethu.

Cafwyd nifer o lwyddiannau wrth wneud hyn. Mae adroddiad yr Ysgrifennydd Parhaol yn nodi rhai o'r rhain: lansio ein cynllun cydraddoldeb hiliol mewnol ein hunain, sydd â'i heriau ei hun; ein cynllun recriwtio graddedigion llwybr carlam i grwpiau a dangynrychiolir, a ddaeth â llawer o bobl i'r Cynulliad; cydnabyddiaeth gan Race for Opportunity ein bod yn un o'r 10 cyflogwr uchaf yn y DU o ran gwella ar bynciau amrywiaeth a chydaddoldeb; a'n sgoriau cyson uwch na sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus yn fforwm y cyflogwyr. Fodd bynnag, wrth gwrs, mae'n fater o gymryd y camau nesaf ac mae'r adroddiad yn tynnu

practice and innovation.

Helen Mary Jones: Minister, do you share my view that it would be easier to scrutinise progress in future if we separated the Government's report from that of the committees?

4.40 p.m.

Jane Hutt: We will look at that in the light of the Government of Wales Bill as we separate.

Finally, the mergers present real challenges and opportunities, such as our having to absorb around 2,000 additional staff. As the Permanent Secretary says, in terms of reaching out, it is about bringing talents into the Assembly Government in terms of our workforce. The networks and partnerships that we have in place will help us to deliver equality.

Gwenda Thomas: This debate has been on the committee's report on the National Assembly's arrangements to promote equality as required under section 120 of the Government of Wales Act 1998. The reports from the Welsh Assembly Government, the committee and APS are mere appendices, which is why the amendments are not appropriate. However, Jenny, I take your point on the amendments and respect your opinion. Your commitment to equality of opportunity is not in question. I still think, however, that the amendments set a precedent. I also note your point on the forward work programmes.

Mark, you made comments on the scrutiny of non-committee members. The committee scrutinises the Welsh Assembly Government and the Assembly Parliamentary Service. Most of your points were on the work of the Welsh Assembly Government. It is still not clear to me how the amendments, if accepted, would be taken forward as part of policy development, other than if they were fed back to the Committee on Equality of Opportunity. The amendments affecting the Assembly Parliamentary Service should be channelled, I understand from Lorraine, via the House Committee. If that is the case, then I hope that the House Committee will feed back to

sylw at enghreifftiau o arferion da ac arloesi.

Helen Mary Jones: Weinidog, a ydych o'r un farn â mi y byddai'n haws craffu ar gynnydd yn y dyfodol petaem yn gwahanu adroddiad y Llywodraeth oddi wrth un y pwyllgorau?

Jane Hutt: Edrychwn ar hynny yng ngoleuni Mesur Llywodraeth Cymru wrth inni wahanu.

Yn olaf, mae'r uno'n cyflwyno heriau a chyfleoedd gwirioneddol, megis ein bod yn gorfod ymgorffori rhyw 2,000 o staff ychwanegol. Fel y dywed yr Ysgrifennydd Parhaol, o ran estyn allan, mater ydyw o ddod â thalentau i mewn i Lywodraeth y Cynulliad o ran ein gweithlu. Bydd y rhwydweithiau a'r partneriaethau sydd ar waith gennym yn help inni gyflwyno cydraddoldeb.

Gwenda Thomas: Mae hon wedi bod yn ddadl ar adroddiad y pwyllgor ar drefniadau'r Cynulliad Cenedlaethol i hybu cydraddoldeb yn ôl gofynion adran 120 Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Atodiadau yn unig yw'r adroddiadau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, y pwyllgor a GSC, a dyna pam nad yw'r gwelliannau'n briodol. Fodd bynnag, Jenny, yr wyf yn gweld eich pwynt am y gwelliannau ac yn parchu eich barn. Nid oes amheuaeth am eich ymrwymiad i gyfle cyfartal. Yr wyf yn dal o'r farn, fodd bynnag, fod y gwelliannau yn gosod cysail. Nodaf hefyd eich pwynt ynghylch y blaenraglenni gwaith.

Mark, cyflwynasoch sylwadau ynghylch craffu gan rai nad ydynt yn aelodau o'r pwyllgor. Mae'r pwyllgor yn craffu ar Lywodraeth Cynulliad Cymru a Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad. Am waith Llywodraeth Cynulliad Cymru yr oedd y rhan fwyaf o'ch pwyntiau. Nid yw'n glir i mi byth sut y byddai'r gwelliannau, o'u derbyn, yn cael eu rhoi ar waith fel rhan o ddatblygu polisi, oni bai eu bod yn cael eu bwydo'n ôl i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal. Deallaf gan Lorraine y dylai'r gwelliannau sy'n effeithio ar Wasanaeth Seneddol y Cynulliad gael eu sianelu drwy Bwyllgor y Tŷ. Os mai felly y mae, yna gobeithio y bydd Pwyllgor y Tŷ yn

the Committee on Equality of Opportunity. That is the confusion in the situation as it stands.

I thank Lorraine for her work on sub-committees, and I point out that the main difficulty is that we are discussing the 2004-05 report, which is 10 months old. Some of the criticisms that all Members have made relate to matters that have been discussed in committee during this year. I know that time is limited, but I will quickly say, Helen, that I agree with you that there is a need for clarification, and I hope that the committee set up to discuss the Government of Wales Bill will seek clarification on issues such as those that we are dealing with this afternoon. I thank you, too, Helen, for your work with Lorraine on the sub-committees.

bwydo'n ôl i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal. Dyna yw'r dryswch yn y sefyllfa fel y mae ar hyn o bryd.

Carwn ddiolch i Lorraine am ei gwaith ar yr is-bwyllgorau, a dymunaf nodi mai'r prif anhawster yw ein bod yn trafod adroddiad 2004-05, sydd yn 10 mis oed. Mae a wnelo peth o'r feirniadaeth a wnaeth yr holl Aelodau â materion a drafodwyd yn y pwyllgor eleni. Gwn fod yr amser yn brin, ond dywedaf yn gyflym, Helen, fy mod yn cytuno â chi fod angen cael eglurhad, a gobeithiaf y bydd y pwyllgor a sefydlwyd i drafod Mesur Llywodraeth Cymru yn ceisio cael eglurhad ar bynciau megis y rhai yr ydym yn ymdrin â hwy y prynhawn yma. Diolch i chi hefyd, Helen, am eich gwaith gyda Lorraine ar yr is-bwyllgorau.

*Gwelliant 1: O blaid 21, Ymatal 0, Yn erbyn 28.
Amendment 1: For 21, Abstain 0, Against 28.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Cairns, Alun
Davies, Janet
Francis, Lisa
German, Michael
Graham, William
Isherwood, Mark
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Jones, Laura Anne
Lloyd, David
Melding, David
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Essex, Sue
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
James, Irene
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Sargeant, Carl
Sinclair, Karen
Thomas, Catherine
Thomas, Gwenda

*Gwrthodwyd y gwelliant.
Amendment defeated.*

*Gwelliant 2: O blaid 21, Ymatal 0, Yn erbyn 28.
Amendment 2: For 21, Abstain 0, Against 28.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Cairns, Alun
Davies, Janet
Francis, Lisa
German, Michael
Graham, William
Isherwood, Mark
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Jones, Laura Anne
Lloyd, David
Melding, David
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Essex, Sue
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
James, Irene
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Sargeant, Carl
Sinclair, Karen
Thomas, Catherine
Thomas, Gwenda

*Gwrthodwyd y gwelliant.
Amendment defeated.*

*Gwelliant 3: O blaid 22, Ymatal 0, Yn erbyn 28.
Amendment 3: For 22, Abstain 0, Against 28.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Cairns, Alun
Davies, Glyn
Davies, Janet
Francis, Lisa
German, Michael
Graham, William
Isherwood, Mark
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Jones, Laura Anne
Lloyd, David
Melding, David
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Essex, Sue
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
James, Irene
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne

Pugh, Alun
Sargeant, Carl
Sinclair, Karen
Thomas, Catherine
Thomas, Gwenda

*Gwrthodwyd y gwelliant.
Amendment defeated.*

*Gwelliant 4: O blaid 22, Ymatal 0, Yn erbyn 28.
Amendment 4: For 22, Abstain 0, Against 28.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Cairns, Alun
Davies, Glyn
Davies, Janet
Francis, Lisa
German, Michael
Graham, William
Isherwood, Mark
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Jones, Laura Anne
Lloyd, David
Melding, David
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Essex, Sue
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
James, Irene
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Sargeant, Carl
Sinclair, Karen
Thomas, Catherine
Thomas, Gwenda

*Gwrthodwyd y gwelliant.
Amendment defeated.*

*Gwelliant 5: O blaid 23, Ymatal 0, Yn erbyn 28.
Amendment 5: For 23, Abstain 0, Against 28.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Cairns, Alun
Davies, Glyn
Davies, Janet
Francis, Lisa
German, Michael
Graham, William
Isherwood, Mark

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Essex, Sue
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John

Jones, Alun Ffred
 Jones, Elin
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Jones, Laura Anne
 Lloyd, David
 Melding, David
 Randerson, Jenny
 Ryder, Janet
 Thomas, Rhodri Glyn
 Williams, Kirsty
 Wood, Leanne

Gwyther, Christine
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Idris Jones, Denise
 James, Irene
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Lewis, Huw
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Sargeant, Carl
 Sinclair, Karen
 Thomas, Catherine
 Thomas, Gwenda

*Gwrthodwyd y gwelliant.
 Amendment defeated.*

Motion (NDM2787): to propose that

the National Assembly for Wales

acting under Standing Order No. 6.6 notes the National Assembly's sixth equality annual report: 'National Assembly for Wales: Arrangements to Promote Equality of Opportunity—Financial Year 2004-2005', which was laid in the Table Office and e-mailed to Assembly Members on 24 January 2006.

Cynnig (NDM2787): cynnig bod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog Rhif 6.6, yn nodi chweched adroddiad blynyddol y Cynulliad Cenedlaethol ar gydraddoldeb: 'Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Trefniadau i Hyrwyddo Cyfle Cyfartal—Blwyddyn Ariannol 2004-2005' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 24 Ionawr 2006.

*Cynnig (NDM2787): O blaid 52, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
 Motion (NDM2787): For 52, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Andrews, Leighton
 Barrett, Lorraine
 Bates, Mick
 Black, Peter
 Bourne, Nick
 Burnham, Eleanor
 Butler, Rosemary
 Cairns, Alun
 Chapman, Christine
 Cuthbert, Jeff
 Davidson, Jane
 Davies, Andrew
 Davies, Glyn
 Davies, Janet
 Essex, Sue
 Francis, Lisa
 German, Michael
 Gibbons, Brian
 Graham, William
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Gwyther, Christine
 Hart, Edwina

Hutt, Jane
 Idris Jones, Denise
 Isherwood, Mark
 James, Irene
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Jones, Elin
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Jones, Laura Anne
 Lewis, Huw
 Lloyd, David
 Lloyd, Val
 Melding, David
 Mewies, Sandy
 Morgan, Jonathan
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Randerson, Jenny
 Ryder, Janet
 Sargeant, Carl
 Sinclair, Karen
 Thomas, Catherine
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Rhodri Glyn
 Williams, Kirsty
 Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig.
 Motion carried.*

The Deputy Presiding Officer: That brings **Y Dirprwy Lywydd:** Daw hynny â
 today's proceedings to a close. chyfarfod heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 4.45 p.m.
 The meeting ended at 4.45 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau
 Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
 Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)
 Bates, Mick (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
 Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Chapman, Christine (Llafur – Labour)
 Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
 Davidson, Jane (Llafur – Labour)
 Davies, Andrew (Llafur – Labour)
 Davies, David (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Davies, Glyn (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Davies, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Dunwoody, Tamsin (Llafur - Labour)
 Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Essex, Sue (Llafur – Labour)
 Francis, Lisa (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 German, Michael (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Graham, William (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Gregory, Janice (Llafur – Labour)

Griffiths, John (Llafur – Labour)
 Gibbons, Brian (Llafur – Labour)
 Gwyther, Christine (Llafur – Labour)
 Hart, Edwina (Llafur – Labour)
 Hutt, Jane (Llafur – Labour)
 Idris Jones, Denise (Llafur – Labour)
 Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 James, Irene (Llafur – Labour)
 Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ann (Llafur – Labour)
 Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
 Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Laura Anne (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Law, Peter (Annibynnol – Independent)
 Lewis, Huw (Llafur – Labour)
 Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Lloyd, Val (Llafur – Labour)
 Marek, John (Cymru Ymlaen – Forward Wales)
 Melding, David (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
 Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)
 Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
 Pugh, Alun (Llafur – Labour)
 Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
 Sinclair, Karen (Llafur – Labour)
 Thomas, Catherine (Llafur – Labour)
 Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
 Thomas, Owen John (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)